PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 442 | Hydref 2021

**Seiclwraig gyflym**



t.8



**Ffilmio 'Borth Begins'** t.6

**Cymrodoriaeth Prifysgol Aberystwyth**



t.10

# Ennill Ysgoloriaeth



Llongyfarchiadau i Dylan Huw, Bancyreithin, Llandre am ennill Ysgoloriaeth Geraint George. Sefydlwyd yr ysgoloriaeth hon gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er cof am Geraint George, a oedd yn amgylcheddwr, addysgwr a chyfathrebwr brwd. Roedd wrth ei fodd yn gweithio gyda phobl ifanc a'u hannog i drafod a ffurfio barn am bynciau amgylcheddol yng Nghymru a thu hwnt.

Nod yr ysgoloriaeth flynyddol, sy'n agored i unigolion 18-25 oed, yw meithrin cyfathrebwyr gwych a all helpu pobl yng Nghymru i werthfawrogi'r byd naturiol a deall y ffactorau sy'n effeithio arno.

Adroddiad oedd ei ymgais yn disgrifio ei brofiadau o fod yn rhan o brosiect Egin gan Theatr Genedlaethol Cymru yn ystod haf 2019. Yn ôl y beirniaid Ethan Williams, Llywydd yr Urdd, Helen Pye, Pennaeth Ymgysylltu, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Sian Williams, Pennaeth Gweithgareddau, Cyfoeth Naturiol Cymru "Mae'n eglur, yn ddiddorol ac yn disgrifio effaith y prosiect ar yr unigolyn, a'r hyn mae wedi dysgu am yr amgylchedd a'r byd trwy fod yn rhan o Egin. Mae'r darn yn cydio ynoch o'r cychwyn tan y diwedd, ac yn dangos dawn … i gyfathrebu.

Ar ben y wobr ariannol o £500 fel arfer caiff yr enillydd ddewis o ymweliad wythnos â Pharc Cenedlaethol Trigav yn Slofenia neu fynychu cynhadledd Europarc - bydd un 2022 yn Seewinkel, Awstria.




Dadorchuddio plac ym Mrynllys, Dôl-y-bont - gweler t.4-5



Lowri a Ffion yn codi arian i Ward Dyfi t.16

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST – Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

CYMRAEG

# dyddiadur

**Rhifyn Tachwedd – Dyddiad cau** Tachwedd 5; **Dyddiad cyhoeddi** Tachwedd 17

**HYDREF 20** Nos Fercher Bethan Wyn Jones yn trafod planhigion meddyginiaethol. Cymdeithas y Penrhyn trwy zoom am 7.30 Manylion gan yr Ysgrifennydd – Ceris Gruffudd

**HYDREF 25- 29** Dyddiau Llun i Gwener Hanner Tymor ysgolion Ceredigion

**HYDREF 28 a 30** Dyddiau Iau a Sadwrn Eisteddfod Sir Cffl Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.

**HYDREF 29** Nos Wener Cyfarfod Blynyddol Plaid Cymru Cangen Bro Dafydd am 7.30pm ar Zoom. Am fanylion ymuno cysyllter a Richard Owen 07939 652273 richard.mechell@gmail.com

**HYDREF 29-31** Nosweithiau Gwener i Sul Helfa Calan Gaeaf ym Mhenrhyn-coch rhwng 6.30 – 9.30 ar y tri diwrnod

**HYDREF 30** Nos Sadwrn Cofiwch droi y cloc awr nôl

**TACHWEDD 17** Nos Fercher Noson yng nghwmni'r Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan. Cymdeithas y Penrhyn trwy zoom am 7.30 Manylion gan yr Ysgrifennydd – Ceris Gruffudd

**TACHWEDD 19** Nos Wener Sgwrs gan Gwenllian Grigg – 'Menyw Newyddion' Cymdeithas Lenyddol y Garn Cyfarfod Zoom am 7.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb ymuno – cysylltwch â Marian am fanylion (marian_hughes@btinternet.com)

**TACHWEDD 20** Dydd Sadwrn Eisteddfod CFfI Cymru ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid

## Cyfarfod blynyddol y Tincer

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Tincer - trwy gyfrwng zoom am yr ail flwyddyn yn olynol – nos Lun 6 Medi am 7.00. Croesawyd y rhai oedd yn bresennol gan y Cadeirydd, Richard Owen, a diolchodd i bawb fu ynghlwm efo cyhoeddi a dosbarthu y papur yn ystod y flwyddyn am eu gwaith. Llwyddwyd y llynedd i gyhoeddi 10 rhifyn er gwaethaf y sefyllfa y buom ynddi oherwydd covid. Ail etholwyd y swyddogion am 2021/22.




## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Medi 2021

**£25** (Rhif 125) John Griffiths, Fronwen, Penegoes
**£15** (Rhif 85) Anwen Pierce, 3 Bryn Meillion, Bow Street
**£10** (Rhif 48) Iwan M Jones, Dolau Gwyn, Dolau

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyngiadau presennol. Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com

## RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**£3.00** Elenid Thomas, Penrhyn-coch

**Neuadd Rhydypennau**

Helô,

Ry'n ni'n falch o ddweud fod mwy a mwy o weithgareddau wedi ailddechrau yn Neuadd Rhydypennau.

Diolch i gefnogaeth hael Cyngor Ceredigion, Cronfa Eleri a Chyngor Cymuned Tirymynach, gosodwyd to fflat newydd yng nghefn y Neuadd. Er mwyn cynnal rhagor o weithgareddau ry'n ni wrthi'n adnewyddu'r Ystafell Gyfarfod ac Ystafell Eleri (yr ystafell snwcer gynt).

Dros y misoedd i ddod byddwn yn peintio'r ddwy ystafell cyn ailorchuddio'u lloriau. **Ond mae angen help arnom gyda'r peintio**, felly tasech chi, neu'ch cydnabod, yn gallu gwneud hyn byddwch mor garedig â chysylltu gyda ni drwy ateb y neges ebost hon.

Bydden ni'n ddiolchgar iawn am unrhyw help, boed dim ond am ychydig oriau.

Diolch yn fawr,

Pwyllgor Neuadd Rhydypennau

## 30 mlynedd yn ôl



Yn dilyn arholiadau Ysgolion Sul Bedyddwyr Cymru a gynhaliwyd fis Mawrth eleni, enillwyd dwy darian gan Ysgol Sul Horeb. Yng Nghyfarfodydd yr Undeb a gynhaliwyd fis ~gorffennaf ym Methel, Llanelli, cyflwynodd y Llywydd (Mr James Nicholas, Bangor) iddi darian yr Undeb, ac yn Rali'r Ysgolion Sul Caerfyrddin a Cheredigion ym mis Medi cyflwynwyd iddi Darian Cymanfa'r Ddwy Sir gan Mr Vincent Williams, Llanelli.
Llun: William Howells (o Dincer Hydref 1991)

**Gefeillio Aberystwyth ac Esquel, Patagonia**

Mae Aberystwyth wedi gefeillio â thref yn y Wladfa o'r enw Esquel ac mae'r dref honno wedi ei lleoli ar gyrion mynyddoedd yr Andes. Ar hyn o bryd, mae Cymdeithas Partneriaeth Pobl Aberystwyth ac Esquel (CPPAE), sef y pwyllgor sy'n trefnu'r gefeillio yr ochr yma, yn casglu ffotograffau gan bobl o ardaloedd Aberystwyth ac Esquel er mwyn creu calendr ar gyfer 2023. Bydd hyn yn tynnu sylw at nodweddion gwrthgyferbyniol y tymhorau yn hemisffer y gogledd a hemisffer y de. Gellid ystyried y bydd y calendr yn portreadu 12 rheswm i werthfawrogi'r gefeillio rhwng y ddwy dref.

Dewiswyd thema i'r ffotograffau ar gyfer pob mis o Fehefin 2021 i fis Mai 2022. Thema mis Mehefin oedd Y dreftadaeth ddiwylliannol a rennir gennym; Y bobl sy'n bwysig yn ein golwg (pobl hŷn) oedd thema mis Medi ac Ein tywydd cyfnewidiol yn yr hydref/gaeaf (Aberystwyth) a'r gwanwyn/haf (Esquel) yw thema mis Tachwedd. Gwahoddir unrhyw un o ardal Aberystwyth i gyflwyno ffotograffau i'w hystyried a'r gobaith yw dewis un llun o Aberystwyth ac un o Esquel ar gyfer pob mis.

Bydd y calendr yn un tairieithog (Cymraeg, Sbaeneg, Saesneg) a bwriedir ei werthu, i ddechrau, yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2022.

Gellir cael y manylion llawn am yr hyn y gofynnir amdano drwy anfon e-bost at Gadeirydd CPPAE, Stephen Tooth ar stephentooth@gmail.com

## Dol-y-bont

**Croeso**

Croeso cynnes i Thomas Morgan sydd wedi symud i fyw i Bryn Boda. Mae Thomas yn adnabyddus i'r rhai ohonoch sy'n ymweld â Siop Inc yn Aberystwyth. Gobeithio y byddi yn hapus yn ein plith.

Estynnwn croeso 'nôl i Nia Nankivell (Cory gynt) a'r teulu yn ôl i Gymru. Braf deall eu bod am setlo yn yr ardal. Ar hyn o bryd, maent wedi ymgartrefu dros dro gyda rhieni Nia yn Bryngwyn.

## CYFLE I ENNILL £100!

Annwyl ddarllenwyr,

Rydyn ni'n ysgrifennu ynglŷn â chystadleuaeth ffotograffiaeth *Cara* – cylchgrawn Cymraeg i ferched o bob oed, gan ferched ac am ferched. Mae *Cara*'n cael ei gyhoeddi 3 gwaith y flwyddyn ac ar gael yn eich siop lyfrau leol. Bydd y rhifyn nesaf yn barod ganol Tachwedd.

Yn ogystal â'r 72 tudalen o erthyglau lliwgar am iechyd, ffasiwn, bwyd a diod, teithio, materion cyfoes a llawer mwy, rydyn ni'n cynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth i fenywod ar y thema Golau/Goleuni. Bydd mwy o fanylion yn *Cara*'r gaeaf. Dyma gyfle i ennill gwobr gwerth £100 gan gwmni Gola, cael y llun wedi ei fframio a hefyd ei gynnwys yn *Cara*. Ewch amdani dros gyfnod y Nadolig a'r Calan!

Beth am brynu anrheg Nadolig gwahanol eleni? Gallwch gael tanysgrifiad blwyddyn i ffrind, mam, merch, modryb, wyres, chwaer, nain… am £12 yn unig. Mae'r manylion ar ein gwefan www.cara.cymru, ac ar @cylchgrawncara ar Facebook, Instagram a Twitter.

Diolch yn fawr,

Meinir ac Efa (Tîm *Cara*)

*Cara*

BRIDGE HOUSE CLEARANCE

Gardd neu Sied - Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim

f 07792457816/01974 261758

YTincer@googlemail.com

# Cofio arloeswraig

Dydd Gwener 24 Medi datgelwyd yr wythfed Plac Porffor yng Nghymru i anrhydeddu Dinah Williams, yr arloeswr organig a'r ffermwr llaeth yn ei fferm gartref, Brynllys yn Nôl-y-bont gan ei merched Rachel (a aeth ymlaen i sefydlu Rachel's Dairy) ac Elizabeth, ynghyd â Shan James, Penbanc, Penrhyn-coch- wyres Dinah sy'n ffermio hefyd.

Dilynodd Dinah ei huchelgais fel plentyn i fod yn ffermwr. Roedd ei ffydd yng ngrym natur a'r angen i edrych ar y gadwyn fwyd gyflawn i wella iechyd pobl yn allweddol yn ei gwaith. Roedd yn credu bod maethu popeth byw yn gynnar, boed yn blanhigion, anifeiliaid neu bobl, yn hollbwysig ac mae hyn yn ei dro yn rheoli sut y dylid rheoli'r pridd er mwyn cynhyrchu bwyd. Ym 1952, daeth Dinah yn un o aelodau cynharaf y Gymdeithas Bridd, a'i fferm, Brynllys, oedd y fferm gyntaf ym Mhrydain i gael tystysgrif fferm laeth organig.

Fel arloeswr yn y mudiad organig y mae dylanwad Dinah wedi bod fwyaf amlwg, a helpodd ei hangerdd a'i chefnogaeth i sefydlu ffermio organig fel rhywbeth prif ffrwd yn y Gorllewin yn yr 1970au. Roedd yn allweddol wrth sefydlu Cymdeithas Bridd Gorllewin Cymru ar y pryd, a oedd yn ddylanwadol iawn o ran datblygiad organig yn y DU.

Hefyd, roedd yn:

- Llywydd yr English Guernsey Cattle Society;
- Cymrawd y Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol;
- Aelod oes o'r Gymdeithas Tir Glas;
- Cyfranogwr brwd gyda'i NFU lleol.

Dangosodd Dinah yr hyn y gallai menywod ei gyflawni yn









yr 1940au, y 50au a'r 60au pan mai byd dynion oedd ffermio. Dechreuodd ffermio gyda'i mam ac aeth ymlaen i ffermio gyda'i gŵr, ei merch a'i mab yng nghyfraith, gan arwain at ffurfio Rachel's Dairy, sef brand llaeth organig cyntaf Cymru.

Roedd Dinah yn addfwyn ac yn ddistaw, yn fach o ran maint, ond roedd yn gadarn ei chred. Gadawodd hanes enfawr o wasanaeth cyhoeddus, ond hefyd rhoddodd gefnogaeth gudd na chafodd ei chofnodi i'r rhai y teimlai a fyddai'n bwrw ymlaen gyda'r neges.

"Hyd ei marw yn 98 oed yn 2009 fe ddilynodd mam-gu ei hegwyddorion a'i chred ym mhŵer natur," meddai Shan James. Roedd y gadwyn fwyd gyfan yn bwysig iddi ac ro'dd hi'n credu'n gryf mewn rhoi bwyd a maeth iawn i blanhigion. Roedd cael y deunydd iawn yn y pridd yn gwbl hanfodol er mwyn cynhyrchu bwyd da."

"Roedd yr hyn a wnaeth Dinah Williams yn gwbl arloesol," medd Penri James, sy'n ddarlithydd amaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn y 1940au wedi'r rhyfel roedd y rhan fwyaf o ffermwyr yn defnyddio gwrtaith artiffisial ond fe lynodd Dinah Williams at y dull traddodiadol pan oedd hynny'n anffasiynol. Ar y pryd doedd dim modd cofrestru fel fferm organig - ond dyma enghraifft o fferm organig gynnar iawn na ildiodd i dechnegau newydd y cyfnod."

Yn ôl Rachel Rowlands "Dwi mor falch bod cyfraniad mam i'r byd organig yn cael sylw. Mae'n parhau i fod yn ysbrydoliaeth i bawb oedd yn ei hadnabod ac ry'n ni gyd wedi elwa o'i chyngor doeth."

## Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Pen blwydd priodas**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i David a Dorothy Evans, Murmur y Coed, Capel Dewi, ar ddathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol.

**Rasio**

Llongyfarchiadau calonnog i Stevie Williams, y seiclwr proffesiynol o dîm Bahrain Victorious, ar ennill y CRO Race, ras chwe chymal yng Nghroatia, ddechrau Hydref. Enillodd Stevie y cymal olaf ond un yn ogystal â'r fuddugoliaeth gyffredinol – y crys coch – ar derfyn y ras.

**Dyweddiad**

Llongyfarchiadau i Elin Wallace, Troedyrhiw a Rhodri Gwynant Jones o Ben-y-groes, Caernarfon ar eu dyweddiad a dymuniadau gorau i'r ddau.

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

Ceir hanes y teulu yn y gyfrol Teleri Bevan *They dared to make a difference: the story of three generations of women behind Rachel's Dairy.* FBA Publications, 2009

**Placiau Porffor**

Sefydlwyd ymgyrch y Placiau Porffor er mwyn gwella cydnabyddiaeth menywod nodedig yng Nghymru drwy godi plac i gofnodi eu cyflawniadau a sicrhau lle dyladwy iddynt yn hanes Cymru. Lansiwyd y Placiau Porffor ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod 2017 gan grŵp o wirfoddolwyr a oedd yn gweld yr angen am well cydnabyddiaeth o gyfraniad menywod i fywyd Cymru.


Amcan yr ymgyrch yw gwella'r ffordd mae menywod nodedig yn cael eu cydnabod drwy ddyfarnu Plac Porffor i amlygu ac anrhydeddu menywod ledled Cymru. Bydd y menywod Cymreig hyn wedi gwneud argraff a chael effaith yng Nghymru neu'n ehangach, ac o bosib heb eu dathlu hyd yma neu wedi eu hepgor o'r llyfrau hanes yn gyfangwbl.

Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod tua 250 o blaciau glas yn bennaf yn coffáu unigolion nodedig yng Nghymru, ond prin yw'r rheini sy'n dathlu menywod. Nod y Placiau Porffor yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn a rhoi lle blaenllaw i fenywod yn ein hanes. Grŵp o wirfoddolwyr annibynnol yw Pwyllgor Placiau Porffor Cymru sy'n bwriadu chwilio am gyllid, ac yn gweithio gyda chymunedau a'r cyhoedd ar hyn o bryd er mwyn cyflawni'n hamcanion.

## Adolygiad

Cynog Dafis *Pantycelyn a'n picil ni heddiw.*
Y Lolfa, 2021. 78t. £4.99

Egyr Cynog Dafis ei gyfrol fain *Pantycelyn a'n picil ni heddiw* gan bwysleisio nad yw'n hanesydd, nac yn athronydd, nac yn ddiwinydd, nac yn feirniad llenyddol. Sylwad cwrtais, ond dianghenraid! Mae'r awdur yn dal ei dir yn y meysydd hyn i gyd. Y cwestiwn yw "A lwyddodd i gynhyrchu testun sy'n werth ei ddarllen?" Wel, do!




Mewn adlais o gynnwrf deallusol "Oes yr Ymoleuo" (oes Pantycelyn) mae'n fy nharo fel "pamffled", h.y. ymgais i gychwyn trafodaeth mae'r awdur yn ei ystyried yn angenrheidiol. Mae iddi dair rhan;

(1) sgetsh hanesyddol hynod ddefnyddiol o fywyd Pantycelyn yn erbyn ei gefndir hanesyddol a deallusol,

(2) dadansoddiad sensitif o ddeg o'i emynau chyda sylwadaeth gyfoethog sy'n olrhain y tensiwn ym Mhantycelyn rhwng athrawiaethau llem y Diwygiad Methodistaidd ar y naill law, ag ymateb emosiynol a hiwmanistig i anghenion seicolegol gwerin gorthrymedig, a

(3) apêl at "ieuenctid" - cenhedlaeth (neu ddwy, neu dair, bellach) sy'n canfod barddoniaeth Cristnogol Pantycelyn yn amherthnasol, a chrefydd yn beryglus, afresymol ac ofergoelus. Strategaeth cynnil Cynog Dafis yw rhannol dderbyn yr ail opiniwn, er mwyn gwadu'r cyntaf.

Cytunwn bod elfennau ofergoelus ac afresymol mewn Cristnogaeth "uniongred" (h.y. Methodistiaeth y ddeunawfed ganrif ar bymtheg) ond nid oes rheidrwydd i 'luchio'r baban cyfriniol allan gyda dŵr cyfundrefnol y baddon". Dadleuwn fod *iaith cynhenid* y traddodiad Cristnogol yn anhepgorol i gyflwyno sylwedd y persbectif Cristnogol. Ond mae'r awdur yn gywir. Rhaid wynebu'r cyhuddiadau! Ys dywedodd rhywun "The Gospel of the Love of God loses something in the telling when it's put across by the Spanish Inquisition"!

Awgryma Cynog Dafis yn gywir, fod "athrawiaeth yr Iawn", sydd mor amlwg yn emynau Pantycelyn, yn broblem arbennig. Gan "athrawiaeth yr Iawn" golyga'r ddealltwriaeth mai gwaith Iesu Grist oedd marw yn ein lle er mwyn talu dyledion ein pechod i Dduw ("penal-substitutionary atonement"). Mae'r syniad na all Duw cariadus, hollalluog faddau troseddwyr heb ladd rhywun yn eu lle yn anfoesol, wrth gwrs.

Ond nid athrawiaeth glasurol mo hon. Ystyr y gair (cynhenid Saesneg) "atonement" yw "at-one-ment" – h.y. y gred bod marwolaeth ac atgyfodiad Iesu (sut bynnag y'i dehonglir) rhywsut yn trwsio perthynas toredig y ddynolryw a Duw. Mae dealltwriaethau traddodiadol amgen na honno: buddugoliaeth dros rymoedd sy'n ein dal yn gaeth mewn realiti treisgar, hunanol, diymddiried a di-hyder; sy'n drech na ni. Yn nhrydedd adran ei "bamffled" dengys Cynog Dafis sensitifrwydd amlwg i'r union themâu hyn. Trwy ganolbwyntio ar obsesiwn y Methodistiaid ar yr Iawn fel trafodion rhwng y Tad a'r Mab, ni ellir cydnabod yn ddigonol bosibiliadau eglurhaol (gan gynnwys goblygiadau gwleidyddol radical) athrawiaethau hŷn ac iachach y Tadau Eglwysig, neu Martin Luther. Ond Pantycelyn sydd ar fai am hynny!

Cwestiwn (rhagorol!) yr awdur yw a oes modd gwahanu Pantycelyn o'i gefndir diwinyddol, er mwyn cael at ei sylwedd.

Pe ceid criw o bobl chwilfrydig mewn capel neu eglwys, fe gynhyrchent dwy neu dair sasiwn o drafodaethau hynod ddiddorol ar sail yr "epistol" hon, ac fe arhosai dylanwad y trafodaethau.

Cyfrol fain, ond swmpus ddigon!

**John Owain Jones Ynys Bute**

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF / CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

CIGYDD BOW STREET
01970 828447
Deli
BOW STREET BUTCHERS SHOP
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

# Y Borth


**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus a phob dymuniad da i Glenys James, Moelcerni, a fydd yn dathlu ei phen blwydd yn 70 ganol fis Tachwedd.

**Dangosiad Ffilm 'Borth Begins'**
Cafodd ffilm o'r ddrama 'Borth Begins' ei dangos yn y Neuadd Gymunedol ar nos Sadwrn 25 Medi o flaen cynulleidfa o bron i 70 o bobl leol.

Cafodd y ddrama gymunedol ei pherfformio'n wreiddiol yn 2019 gyda nifer o drigolion y pentref yn cymryd rhan.

Roedd pedair rhan i'r cynhyrchiad, gyda phob rhan yn cael ei llwyfannu mewn lleoliad gwahanol.

Y traeth o flaen gorsaf y bad achub oedd lleoliad yr olygfa gyntaf ac roedd yn canolbwyntio ar hanes pysgota sgadan, oedd yn ddiwydiant holl bwysig tan ddechrau'r 20fed ganrif.



Felix, Pete ac Ieuan wrthi'n ffilmio'r ddrama ym mis Awst 2019. Diolch i Chris Denny am y llun.

Symudodd y cast a'r gynulleidfa yn eu blaen i Ganolfan Seren y Môr ar gyfer yr ail ran cyn perfformio golygfeydd am hanes y rheilffyrdd a Phantyfedwen o flaen yr orsaf. Daeth y ddrama i ben gyda choelcerth a chanu ar y traeth gyferbyn ag adeilad y Grand.

Tri o bobl y pentref fu'n gyfrifol am greu'r cynhyrchiad, gyda'r geiriau a'r gerddoriaeth gan Mike Francis a Nick Jones ac fe'i seiliwyd ar syniad gwreiddiol gan Rae Cashman.

Ffilmiwyd a golygwyd y golygfeydd gan Felix Canadam, Pete Telfer a Ieuan Ellis ar gyfer y dangosiad yn y neuadd, ac mae'r cynhyrchiad bellach i'w weld ar YouTube: www.youtube.com/watch?v=YIKOi-S0jII

**Galwad am Gerddi**
Mae Clwb Ysgrifennwyr y Borth yn galw ar i bobl leol rannu cerddi maen nhw wedi'u cyfansoddi am y pentref, yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Sefydlwyd y clwb yn ystod y cyfnod clo cyntaf ac mae'r aelodau'n paratoi i gyhoeddi eu pamffled cyntaf, sef casgliad o ddarnau byr gan feirdd ac ysgrifennwyr lleol. Gall fod yn gerdd, yn ddarn byr o ryddiaith neu'n ffuglen fflach.

Os hoffech gael eich cynnwys, anfonwch eich gwaith at borthwritersgroup@gmail.com erbyn 2 Tachwedd 2021.

**Borth 2030**
Bydd grwp Borth 2030 yn cynnal cyfarfod cyhoeddus yn y pentref yn ystod mis Tachwedd i drafod syniadau'r gymuned ar gyfer yr ardal dros y degawd nesaf. Caiff manylion pellach eu cyhoeddi'n fuan ar dudalen Facebook Borth 2030 a bydd croeso i bawb ymuno. Gallwch hefyd ebostio mail@borth2030.wales, ffonio Dr Andrea Hughes ar 01970 871304 neu fynd i wefan y grwp borth2030.wales am wybodaeth ychwanegol.



**Borth ar y BBC**
Roedd y Borth yn destun eitem ar raglen y One Show ar BBC 1 nos Fawrth 12 Hydref. Y cyflwynydd poblogaidd Owain Wyn Evans oedd wedi dod i'r pentref i wneud adroddiad am chwedl Cantre'r Gwaelod ac olion yr hen goedwig sydd wedi dod i'r amlwg fwy fwy ar y traeth dros y blynyddoedd diwethaf.

**Libanus 1877**
Mae wedi bod yn gyfnod prysur i'r sinema yn sgîl rhyddhau ffilm ddiweddaraf James Bond 'No Time To Die', gyda phob tocyn yn aml wedi'i werthu. Mae'r bwyty wedi bod yn brysur hefyd, ac wedi cyflwyno bwydlen ac amserlen newydd ar ddydd Sul pan fydd yn gweini bwyd rhwng 4 y prynhawn a 7.30 yr hwyr yn hytrach na ganol dydd

## Achubwyr Bywyd

Mae Cyngor Cymuned y Borth wedi ysgrifennu at yr RNLI yn diolch i'r criw o bobl ifanc a fu'n gweithio fel achubwyr bywyd ar draeth y pentref drwy gydol yr haf.

Diolchwyd iddyn nhw am eu cymorth yn tynnu sylw perchnogion cŵn at yr is-ddeddf lleol sydd mewn grym rhwng mis Mai a 30 Medi, yn gwahardd cŵn o'r tywod rhwng y graig a'r clwb golf.

Mae gwaharddiad o'r fath yn bwysig er mwyn sicrhau bod y traeth yn cadw ei baner las ac yn ôl y Cyngor, roedd gostyngiad amlwg i weld yn nifer y cŵn ar y traeth ger gorsaf yr RNLI lle mae cwt yr achubwyr bywyd.

Diolchwyd hefyd iddyn nhw am yr holl waith clodwiw maen nhw'n ei wneud yn ystod yr haf i gadw preswylwyr lleol ac ymwelwyr yn ddiogel.

Os am gefnogi'r Bad Achub yn lleol, mae siop yr RNLI yn y Borth ar agor pob dydd Sadwrn yn ystod mis Hydref a Thachwedd rhwng 10yb a 2yp ac yn gwerthu ystod o nwyddau ac anrhegion.

Cofwch hefyd bod Canolfan Ymwelwyr Dyfi Ynys-las ar agor tan ddiwedd mis



Hydref lle mae modd prynu diodydd poeth, byrbrydau, llyfrau, mapiau a lluniau lleol. Dilynwch y Ganolfan ar Facebook am y newyddion diweddaraf.

## Newyddion Clwb Golf y Borth ac Ynys-las

**Salver Peter Jones**
Ar ddiwrnod godidog ar Fedi 19eg, chwaraeodd nifer o'r dynion yng nghystadleuaeth Peter Jones. Yn fuddugol gyda sgôr arbennig o 50 pwynt oedd Alan Phillips a Ian Lewis, gyda Richard a Stephan Lucas yn ail ar 45 o bwyntiau.

**Cystadleuaeth KBI**
Chwaraewyd y gystadleuaeth fawreddog yma ar 26 Medi gyda Dylan Raw-Rees yn cipio'r wobr gyntaf â sgôr da iawn o nett 69. Yn ail roedd Barry Williams gyda sgôr o nett 71.

**Gwibdaith y menywod**
Aeth 15 o aelodau adran y menywod ar wibdaith i chwarae ar cwrs golf Gaerfyrddin. Er y tywydd gwlyb cafwyd llawer o hwyl yn chwarae ar gwrs gwahanol. Yn ennill y dydd roedd Ruth Jones gyda 35 pwynt ac yn ail Kathy Price.



**Newyddion o'r gorffennol**
Mae Sue Dalton o'r Borth wedi bod yn pori yn archifau papurau newydd y Llyfrgell Genedlaethol i ganfod beth oedd gan papurau'r gorffennol i'w ddweud am fywyd yn y pentref yn y 19eg ganrif. Dyma rai o bigion ei hymchwil, yn bennaf o'r *Cambrian News* a'r *Aberystwyth Observer* rhwng 1811 a 1861. Byddwn ni'n edrych nôl ar ragor o benawdau hanesyddol yn rhifyn nesa'r *Tincer*.

**1811**
Yn sgîl gwyntoedd cryfion, cafodd y brig 'Venus' ei dryllio ar draeth y Borth ond cafodd y criw a'r cargo eu hachub. Roedd y llong ar ei ffordd o Malta i Lerpwl ar y pryd, gyda llwyth o resins, cotwm a lemonau.

**1821**
Hysbysebwyd fod ffarm 300 erw Glanfrêd Uchaf ac Isaf ar gael i'w rhentu. Roedd y ffarm, meddid, yn "ddwy filltir ar hyd ffordd dyrpeg o'r Borth lle mae digonedd o galch, gwymon a thywod ar gael ar gyfer gwrtaith."

**1831**
Ym mis Chwefror bu tân ar ffarm Glanleri. Fe'i achoswyd gan gannwyll a daflwyd yn ddiofal i ganol tomen o wair. Llwyddodd y gweithwyr i'w ddiffodd, ond erbyn hynny roedd y gwair a'r cert wedi llosgi'n ilw.

**1841**
Ym mis Ionawr cafodd y sgwner 'Robert' oedd yn hwylio o Newfoundland i Lerpwl ei chwythu i'r lan ger y Borth, ac arni lwyth o olew a chroen morlo. Roedd y llong wedi colli ei llyw a'i hangor ac yn cael ei sgubo'n ddi-reolaeth gan y storm, gyda'r meistr, ei wraig a'i ferch ar ei bwrdd. Cafodd y teulu a'r cargo eu hachub a'u 'trin yn garedig gan bobl dda y Borth'.

**1851**
Ym mis Chwefror cafodd dyn lleol ei ladd pan ddaeth pen morthwyl yn rhydd gan hedfan drwy'r awyr a'i daro ar ei ben. Ym mis Mai cafodd llafurwr a oedd yn gweithio yn y coedlannau derw yng Nglanleri ei ladd gan goeden dderw yn cwympo. Ym mis Awst cafodd dyn lleol ddirwy o ddwy swllt am ymosod ar y casglwr tollau wrth giât dyrpeg gogledd Aberystwyth a gorfodi ei ffordd drwodd.

**1861**
Ym mis Chwefror cafodd y sgwner 'Aquila' o'r Borth, oedd yn hwylio o Saundersfoot i Aberdyfi gyda llwyth o lo mân ar ei bwrdd, ei ddryllio'n llwyr mew ncorwynt oddi ar Aberystwyth. Aeth wyth o ddynion ifanc lleol allan at y llong mewn cwch ac fe lwyddodd un ohonyn nhw i fynd ar ei bwrdd a helpu i achub y criw. Arweiniodd y digwyddiad at sefydlu bad achub lleol gyda chymorth Sefydliad y Badau Achub a thanysgrifiad lleol.

Cynhaliwyd o leiaf chwe chyfarfod cyhoeddus yn Aberystwyth i drafod cynlluniau arfaethedig ar gyfer rheilffyrdd yn yr ardal. Y farn gyffredin oedd bod y llwybr arfaethedig trwy'r Borth yn hirach, ond y byddai'r costau yn is na mynd trwy Tre'r-ddôl a Thal-y-bont.

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

# Bow Street

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Liz Jones, Maes Ceiro, ar farwolaeth cefnder yng Nghricieth – Elwyn Davies.

**50 ml yn flaenor**
Llongyfarchiadau i Vernon Jones ar gyflawni hanner can mlynedd fel blaenor yng Nghapel y Garn.

**Priodas ddiemwnt**
Llongyfarchiadau i Shân a Mike Hayward ar ddathlu eu priodas ddiemwnt ar 16 Medi.

**Codi arian**
Llongyfarchiadau i Emma Parr-Davies, Llys y Wern, un a gwblhaodd Treiathlon Camlas Maldwyn yn ddiweddar gan godi arian i apêl Afghanistan.

**Capel Noddfa**
Yn ystod mis Medi, cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol gan un o'r aelodau, sef Iwan Davies, Maes-y-garn. 'Dŵr' oedd y thema, ac aeth Iwan â ni, drwy gyfrwng geiriau, ar daith o amgylch Bow Street ei ieuenctid yn nodi lleoliadau ffynhonnau dŵr glân a phympiau dŵr, fel yr oedd e'n eu cofio. Soniodd am y nant a lifai heibio capel Noddfa, a'r felin oedd arfer bod gerllaw, ac am sawl atgof arall. Cafwyd sgwrs ddifyr debyg gan Maria Owen dros zoom yn y gwanwyn (ac mae'r erthygl i'w darllen yn rhifyn Mawrth '21 o'r *Tincer*). Arweiniodd atgofion Iwan yn daclus at ran nesaf ei sgwrs, sef iddo weld pwt ar y teledu am ferch ifanc yn un o wledydd datblygol y byd, yn gorfod cerdded milltiroedd maith, sawl gwaith y dydd, er mwyn casglu dŵr glân i'w theulu. Roedd y daith ddyddiol hon yn golygu bod y ferch yn hwyr i'r ysgol ac o'r oherwydd roedd ei haddysg yn dioddef. Atgoffwyd ni gan Iwan mai braint yw cael dŵr glân yn ein cartrefi; mae miliynau dros y byd heb y fraint honno, ac aeth ymlaen i grybwyll gwaith hanfodol elusennau fel WaterAid, a'r angen sydd mewn cynifer o wledydd am gymorth o bob math.

Mae Noddfa wedi bod yn trafod rôl y capel yn ystod yr wythnosau diwethaf o safbwynt gwaith elusennol, ac mae cwestiynau pwysig wedi cael eu codi – cwestiynau sy'n berthnasol i bob capel ac eglwys – o ran defnyddio'r arian sydd yn y cyfrifon mewn ffordd fwy Cristnogol, moesol a dyngarol. Hoffai aelodau Noddfa ddiolch i Iwan am y sgwrs, ond yn bwysicach am brocio'r gydwybod ac am sicrhau ein bod fel capel yn gweithredu, a hynny'n syth. Bydd y drafodaeth yn sicr yn parhau.




**Seiclwraig chwim**
Llongyfarchiadau mawr i Cari Morgan-Williams, o flwyddyn 7 Penweddig ar ei llwyddiant ym myd rasio beiciau mynydd. Daeth Cari yn gyntaf yn ras y merched o dan 12 oed ym Mhencampwriaeth Beicio Mynydd Cenedlaethol Cymru 2021 yng Nghaerffili. Ei hamser oedd 19.13 munud, gyda'r bachgen cyflyma yn llwyddo i gwblhau'r ras mewn amser o 19.36 munud!

**Cymdeithas Chwiorydd Capel y Garn**
Brynhawn Mercher Hydref 6 daeth Cymdeithas y Chwiorydd ynghyd i gyd-fynegi diolchgarwch am y bendithion sydd o'n cwmpas ni, er y gwyddom fod eraill yn gorfod byw mewn caledi beunyddiol. Ar ôl i Lis Jones ddarllen hanes y Wraig wrth Ffynnon Jacob, rhannodd ein gŵr gwâdd, Iwan Davies, wybodaeth am Ffynnon Bwstryd â ni, – atgofion oedd wedi eu cyffroi wrth weld eitem sobreiddiol ar y teledu ynghylch gwragedd yn Affrica yn cerdded milltiroedd i nôl dŵr i'w teulu heb unrhyw sicrwydd fod y dŵr hwnnw'n lân ac yn ddiogel i'w roi i'w plant. Cyhoeddodd Shân Hayward emyn addas Tudor Davies – Cofia'r newynog nefol Dad – i gau'r cyfarfod. Diolch i bawb a gyfrannodd at y swm o £116 a anfonwyd i WaterAid.

**Gair o ddiolch**
Diolch o galon am y llu o gardiau a dymuniadau da dderbyniwyd dros y misoedd diwethaf. Gwerthfawrogwyd pob gair a gweithred. Meinir Lowry.

**Cylch Meithrin Rhydypennau**
Mae'r Cylch yn cynnal cystadleuaeth cerfio ac addurno pwmpen. Bydd gwobrau 1af 2il a 3ydd. £2.50. Talwch gyfrif Paypal y Cylch o dan Friends & family. Ceisiadau erbyn 31 Hydref; lluniau i cylchmeithrinrhyd@gmail.com

# Anime, Fi a Chymru





Ywain Tomos ydwyf i, yn enedigol o Ddolgellau ac yn byw yn Bow Street gyda fy ngwraig Tomoko a'm mab Tamaki Aneurin sy'n 5 oed ac yn mynd i Ysgol Rhydypennau. Mae Tomoko yn gweithio'n Ysbyty Bron-glais ac yn dod yn wreiddiol o Koishikawa yn ymyl Tokyo. Fe wnaethom ni briodi yng nghysegrfa Nezu, un o'r adeiladau hynaf yn Tokyo. Mae fy niddordeb mewn ffilmiau Siapaniaidd anime yn dyddio o'm harddegau. Fel person oedd wedi fy magu gyda *Superted*, roedd cartwnau Siapaniaidd yn apelio'n fawr ataf fel rhywbeth cyffrous a ffres. Mae diwylliant Siapaneaidd yn un gweledol ac mae anime yn seiliedig ar lyfrau graffeg *manga* sy'n boblogaidd iawn yn Siapan.

Fe wnes i gwblhau doethuriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth trwy ymchwilio i faes anime a'i gysylltiadau gyda hunaniaeth ddiwylliannol. Yn ystod yr ymchwil, deuais ar draws cysylltiad diddorol rhwng Cymru a Siapan yn ffilmiau Hayeo Miyazaki, cyfarwyddwr anime enwog. Miyazaki, a ddechreuodd

# Etholiadau'r Almaen



Fel y gwyddoch erbyn nawr bu'r Almaen yn ethol aelodau seneddol newydd y mis diwethaf ac yn anuniongyrchol yn dewis canghellor newydd i olynu Angela Merkel, sy'n sefyll i lawr wedi bod wrth y llyw ers 2005. Yn swyddogol y senedd (Bundestag) fydd yn dewis y canghellor newydd – bydd Llywydd yr Almaen yn trafod gyda'r pleidiau ac yna yn rhoddi enw gerbron a chynhelir pleidlais. Fel arfer cynigir ac yna dewisir yr ymgeisydd sy'n derbyn cefnogaeth y glymblaid fydd yn ffurfio'r llywodraeth. Nid yw'r gwleidyddion a ddewisir fel ymgeisyddion eu pleidiau ar gyfer swydd y canghellor o angenrheidrwydd yn arwain eu pleidiau ond bydd yr etholwyr yn gwybod cyn bwrw pleidlais pwy mae'r pleidiau wedi dewis fel ymgeisydd a gall hyn ddylanwadu ar eu pleidlais.

Rydwyf wedi crybwyll y gair clymblaid eisoes. Mae clymbleidio yn nodwedd o lywodraethau Gorllewin yr Almaen ers iddi gael ei sefydlu fel Gweriniaeth Ffederal ym 1949 a ni newidiodd hyn wedi i'r Almaen uno ym 1990. Roedd Merkel yn arwain 'Clymblaid Fawr' ers 2017 yn cynnwys y ddwy brif blaid: ei phlaid ei hun, y Democratiaid Cristnogol (CDU), a'r SPD, y Democratiaid Cymdeithasol (nid y Democratiaid Sosialaidd fel y myn S4C eu galw!). Mae gan etholwyr ddwy bleidlais, un ar gyfer aelod seneddol lleol (a ddewisir ar sail mwyafrif syml) ac un ar gyfer plaid. Er mwyn penderfynu faint o aelodau o bob plaid sy'n mynd i'r Bundestag ar sail yr ail beidlais defnyddir sustem gyfrannol. Hefyd, er mwyn osgoi trafferthion cyfnod Gweriniaeth Weimar, rhwng y ddau ryfel byd, pan oedd y senedd yn llawn o bleidiau bychain a roedd bron yn amhosibl llywodraethu'n effeithlon, rhaid i blaid derbyn 5% o'r bleidlais cyn cael anfon cynrychiolwyr.

Mae unrhyw drafodaethau clymbleidio yn cymryd amser ond y tro yma mae'n debygol byddwn yn yn gorfod aros yn o hir i weld pwy fydd yn ffurfio'r llywodraeth newydd a phwy fydd y canghellor nesaf. Yr SPD a enillodd o drwch blewyn - 25.7% yn erbyn 24.1% i'r CDU - felly nid oes ganddi fwyafrif absoliwt. Er y byddai rhai yn credu bod ennill hyd yn oed o drwch blewyn yn ddigon i sicrhau mai Olaf Scholz fydd canghellor newydd yr Almaen, nid yw Armin Laschet, ymgeisydd y CDU, wedi rhoi'r gorau i'w obeithion a mae'r CDU a'r SPD wrthi'n brysur yn trio arghyoeddi y Gwyrddion a'r Rhyddfrydwyr (FDP) i'w cefnogi mewn clymblaid. Wrth imi ysgrifennu hyn o bwt dyw hi dal ddim yn glir sut fydd yr FDP a'r Gwyrddion yn penderfynu, yn enwedig gan fod gan y ddwy blaid yma agweddau go wahanol tuag at bynciau pwysig fel yr economi a chodi threthi. A fydd gan yr Almaen glymblaid Jamaica (gwyrdd, melyn a du) neu glymblaid goleuadau traffig (gwyrdd, melyn a choch) – amser a ddengys ond mae'r polau piniwn yn awgrymu'n glir bod y cyhoedd am weld yr SPD yn y llywodraeth a Scholz yn ganghellor. A fydd y gwleidyddion yn gwrando?

**Wini Davies**

## Clarach

**Ennill gwobrau**

Llongyfarchiadau i deulu Jenkins am ennill sawl gwobr yn ddiweddar. Yn yr haf daethant i'r brig yn Sioe Laeth Rithiol Bridwyr Aberyswtyth. Dyma'r tro cyntaf i'r digwyddiad yma gael ei gynnal a gobeiothir ei gynnal yn flynyddol.

Yna ar Fedi 30aian cynhaliwyd Gwobrau Cyntaf Aber gan Fenter Aberystwyth a daethant i'r brig mewn dau o'r naw categori – un am hyrwyddo'r Gymraeg a'r Wobr Werdd- gwobr sy'n datblygu mentrau gwyrdd yn y gymuned. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

y cwmni Stiwdio Ghibli ym 1985, a gwnaeth lawer o ffilmiau cofiadwy gan gynnwys '*Spirited Away*'(2001) a enillodd Oscar.

Mae'n gyfarwyddwr anarferol gan iddo chwilio am ysbrydoliaeth mewn diwylliannau eraill ac yn aml yn benthyg ar lenyddiaeth y Gorllewin wrth adrodd straeon. Un o'i ffilmiau mwyaf poblogaidd yw '*Laputa: Castell yn yr Awyr*' (1986). Antur ffantasi ydyw, sy'n adrodd stori Laputa, y ddinas chwedlonol yn yr awyr ac anallu pobl i ddefnyddio gwyddoniaeth yn effeithiol. (Laputa oedd enw'r ddinas a oedd yn hedfan yng nghyfrol '*Gulliver's Travels*' gan Jonathan Swift a gyhoeddwyd ym 1726). Gwnaed dros 67,000 o luniau ar gyfer animeiddio'r ffilm, pob un wedi'i lunio â llaw yn seiliedigar ar ddyluniadau Miyazaki.

Os edrychwch yn ofalus iawn, efallai y bydd y castell ar Laputa yn edrych yn gyfarwydd. Daeth Miyazaki i Gymru ym 1984 ac roedd wedi gwirioni cymaint â chestyll canoloesol megis Caerffili, Caernarfon a Chastell Powis fel y defnyddiodd hwy yn ysbrydoliaeth ar gyfer dylunio'r castell yn Laputa.

Heb os, mae'r glowyr yn arwyr yn y ffilm. Maen nhw'n helpu'r ddau brif gymeriad i ddianc o'r dihirod ac mae darluniad Miyazaki o'u pentref yn dangos y tai yn glynu wrth ochr y bryn fel yng nghymoedd mwyngloddio De Cymru.

Dyma oedd teyrnged Miyazaki i'r glowyr o Gymru yr oedd yn ei edmygu'n fawr pan ymwelodd â Chymru ym 1984 yn ystod Streic y Glowyr yn erbyn cau'r pyllau. Dychwelodd Miyazaki i Gymru ym 1985 i ymchwilio ar gyfer y ffilm, ac erbyn hynny roedd y streicwyr wedi colli'r frwydr i achub eu diwydiant. Yn ystod cyfweliadau papur newydd, mynegodd Miyazaki ei ofid personol fod y cymunedau clos hyn yng Nghymru yn diflannu (fel yr oeddent yn ardaloedd mwyngloddio Siapan, yn ogystal) ac roedd yn awyddus i ddangos eu cryfderau yn y ffilm. Felly, un enghraifft arall o'r cysylltiadau a'r cyfeillgarwch sy'n bodoli rhwng Cymru a Siapan.



Dyluniad pentref mwyngloddio yn 'Laputa: Castell yn yr Awyr'



Llun gwreiddiol ar gyfer y castell ar Laputa

# Penrhyn-coch

**Oedfaon Horeb**

*Hydref*

**31** 2.30 – Y Parchg Peter Thomas

*Tachwedd*

**7** 2.30 Y Parchg Peter Thomas

**21** 2.30 Y Parchg Judith Morris
Oedfa newid hinsawdd

**Cyflwyno Cymrodoriaeth er Anrhydedd i Gwerfyl**

Llongyfarchiadau i Gwerfyl Pierce Jones – un o nifer? Y dyfarnwyd Cymrodoriaeth er Anrhydedd Prifysgol Aberystwyth iddi ddiwedd Medi. Wedi iddi raddio o Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, dechreuodd Gwerfyl Pierce Jones ei gyrfa fel darlithydd yn Adran y Gymraeg, Coleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Bu'n gweithio ym myd y celfyddydau, gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, yr Academi Gymreig (Llenyddiaeth Cymru erbyn hyn) a Chyngor Llyfrau Cymru, lle bu'n gyfarwyddwr o 1989 hyd ei hymddeoliad yn 2009. Bu'n gadeirydd Theatr Genedlaethol Cymru a gwasanaethodd ar nifer o fyrddau cenedlaethol, gan gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Mae hefyd yn ymwneud â nifer o elusennau ac ymddiriedolaethau ac mae'n gadeirydd Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Bu'n Ddirprwy Ganghellor y Brifysgol o 2012 i 2019 ac yn Is-gadeirydd y Cyngor yn ei dwy flynedd olaf. Y mae hefyd yn Gymrawd Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan.



**Cymdeithas y Penrhyn**

Cynhaliwyd noson agoriadol y tymor newydd nos Fercher, y 15fed o Fedi dros Zoom a chafwyd cynulleidfa niferus o bobl leol ac eraill o wahanol rannau o Gymru ac o'r Wladfa. Lleucu Roberts, awdur sydd wedi'i magu yn Dolau, oedd y siaradwraig wadd, ac roedd yn gyfle i'w llongyfarch ar ei champ yn ennill dwy brif wobr rhyddiaith yr Eisteddfod Amgen eleni. Dyma'r gweithiau a fyddai wedi cael eu gwobrwyo yn Nhregaron y llynedd ac roedd Lleucu wedi cael gwybod am ei llwyddiant cyn y pandemig, felly bu'n rhaid iddi aros yn hir cyn rhannu'r wybodaeth.

Nofel o'r enw *Hannah-Jane* enillodd wobr Daniel Owen iddi. Mae honno wedi ei lleoli yng Nghaernarfon, yng nghysgod Brexit, yn 2019, ac yn sôn am fywydau pedair dynes. *Y Stori Orau* yw cyfrol y Fedal Ryddiaith a honno'n ymwneud â pherthynas mam a merch.

Soniodd Lleucu am ei hoffter o unigrwydd y broses o ysgrifennu a'r modd y mae ysgrifennu am gymeriadau benywaidd yn apelio ati. Soniodd hefyd am y mwynhad a gaiff o arbrofi a sut y mae cystadlu yn ffordd o asesu beth sy'n gweithio. Cafwyd trafodaeth frwd a diddorol am y gweithiau i gwblhau noson werth chweil.

*Hannah-Jane*, Y Lolfa £8.99;
*Y Stori Orau*, Y Lolfa, £8.99 neu e-lyfrau am £7.99 yr un.

**Codi arian i ofal Canser Macmillan**

Eto eleni, wrth i ni fwynhau bore braf o Fedi ar 14, cawsom stondin gacennau lwyddiannus iawn ar dir Neuadd yr Eglwys ar gyfer codi arian i gronfa Macmillan. Gwerthwyd y cacennau i gyd a gwnaethpwyd elw o £745.07 a fydd yn cael ei wario yn lleol fel arfer.

Dymuna Frances a Rhiannon ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd, ynghyd a'r rhai a fu'n helpu ar y diwrnod. Rydym yn ddiolchgar iawn i Aled a Howard am gynorthwyo gyda'r gazebo, byrddau a'r cadeiriau er mwyn i rai gael cyfle i eistedd i gael sgwrs. Diolch hefyd i Lynwen a garej Tŷ Mawr am fodloni i roi blwch casgliad am rai dyddiau yn y garej, ac i William am hysbysebu. Gobeithio erbyn y flwyddyn nesaf y cawn ymuno tu mewn i ni gael paned a chymdeithasu.





**Merched y Wawr**

Cyfarfu Merched y Wawr Penrhyn-coch yn Neuadd y Penrhyn am y tro cyntaf ers tro ar Hydref 14eg. Trefnwyd noson rhwng yr aelodau. Gêm dominos yng ngofal Wendy Reynolds a Mair Jenkins. Bu cystadlu brwd a'r enillwyr oedd Miriam a Glenys.

Mae gwaith dwy aelod o'r gangen yn y gyfrol Caru crefftio gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n dathlu doniau crefftio aelodau a chyfeillion Merched y Wawr. Mae Glenys Morgan yn disgrifio gwneud cerdyn papur a cwilio a Delyth Jones yn uwchgylchu trwy droi poncho yn glustog. Yn ogystal a dysgu mwy am grefftau sy'n amrywio o wau a chrosio i waith coed ac arlunio, cewch ddilyn patrymau i'w hail-greu eich hunan, a chael eich ysbrydoli i roi tro ar ambell grefft newydd. Mae'r gyfrol 128t. ar werth am £10.00.

**Geni gor-wyres**

Llongyfarchiadau i Elfed ac Eirlys Evans, Bodafon, ar enedigaeth eu gor-wyres gyntaf. Ganed Elliw Haf i Dylan a Meryl yn Swyddffynnon ddechrau mis Awst.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn gydag Andrew a theulu y ddiweddar Julie James, Cae Mawr, ar farwolaeth Julie ar 2 Hydref. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys Mihangel Sant, Aberystwyth yn cael ei ddilyn gan amlosgiad yn Amlosgiad Aberystwyth ar 15 Hydref.

Cydymdeimlwn â'r brodyr Evans – Colin, Ronnie, Aubrey, Clifford a Howard Evans a Moira Wrigley ar farwolaeth perthyn – Nancy Thomas, Tonypandy, yn 96 oed.

**Amser i glirio'r wardrob**

Mae'n siwr fod rhai ohonoch wedi sylwi ar ychwanegiad lliwgar iawn o flaen Garej Tŷ Mawr! Mae elusen Nisa Making a Difference Locally wedi lansio menter newydd i helpu busnesau i godi arian ar gyfer elusennau



Cylch Meithrin Trefeurig yn cael hwyl gyda'u hadnoddau newydd

# ENILLYDD GWOBR MARY VAUGHAN JONES

Llongyfarchiadau i Menna Lloyd Williams, Waunfawr, Aberystwyth – gynt o Glan Seilo – enillydd Gwobr Mary Vaughan Jones eleni.Cyflwynir y wobr bob tair blynedd gan Gyngor Llyfrau Cymru er cof am Mary Vaughan Jones, a fu farw yn 1983, i berson a wnaeth gyfraniad arbennig i faes llenyddiaeth plant yng Nghymru..

Yn ystod ei chyfnod fel pennaeth yr adran bu'n bennaf gyfrifol am drefnu cynadleddau blynyddol i drafod gwahanol agweddau ar lenyddiaeth plant, Gwobrau Tir na n-Og, clybiau llyfrau a chystadlaethau



darllen i ysgolion. Mewn cydweithrediad ag Adran Blant S4C ac Urdd Gobaith Cymru bu'n gyfrifol am sefydlu'r cynllun Bardd Plant Cymru.

Cynhelir digwyddiad digidol Gwobr Mary Vaughan Jones i ddathlu cyfraniad Menna Lloyd Williams ar sianel Cyngor Llyfrau Cymru #carudarllen AM https://amam.cymru/carudarllen am 7pm ddydd Mawrth, 2 Tachwedd fel rhan o ddathliadau'r Cyngor yn 60 oed.

## Cyngor Cymuned Melindwr

Gan fod y niferoedd Covid yn cynyddu yng Ngheredigion gwnaed y penderfyniad i gynnal cyfarfod mis Medi trwy gyfrwng Zoom. Cynhaliwyd y cyfarfod o dan gadeiryddiaeth ein Cadeirydd y Cynghorydd Jim Palmer. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth dau gynghorydd.

Mae cynrychiolydd o Gyngor Melindwr wedi bod yn mynychu cyfarfodydd Band Eang Broadway.

Gobeithir rhoi grantiau bychain i fudiadau lleol i gefnogi gweithgaredd neu prosiect. Bydd angen gwneud cais erbyn Rhagfyr 31 2021. Cysylltwch â'r clerc naill ai trwy lythyr neu trwy ebost- cyngormelindwrcouncil@gmail.com

Noder fod yna sedd wag ar y Cyngor; os oes rhywun â diddordeb cysylltwch a'r clerc neu un o'r Cynghorwyr am fanylion pellach

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau Hydref 21. Oherwydd y sefyllfa efo Covid, penderfynwyd yn y cyfarfod i gynnal cyfarfodydd misoedd Hydref a Tachwedd trwy gyfrwng Zoom.

lleol ar ffurf banciau dillad. Er mwyn gwneud defnydd gwell o'ch hen ddillad, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a hefyd ein helpu i gyfrannu at achosion lleol, defnyddiwch fanc dillad Tŷ Mawr. Dyma gyfle perffaith i glirio'ch wardrob a chyfrannu at achosion lleol yr un pryd!

**Pêl-droed Penrhyn-coch**

*Canlyniadau Tîm Cyntaf*

Medi

**11** Penrhyn-coch 2 Llandudno 3

**18** Cegidfa (Guilsfield) 2 Penrhyn-coch 2

**22** Cwpan Nathaniel MG - 3ydd rownd

Penrhyn-coch 1 Pontypridd 3

**25** Cwpan Cymru - 5ed rownd

Penrhyn-coch 1 Saltney 1 - (Saltney yn ennill ar goliau o'r smotyn Penrhyn-coch 4 - Saltney 5)

Hydref

**2** Caergybi 1 Penrhyn-coch 1

**9** Penrhyn-coch 0 Prestatyn 2

*Eilyddion Penrhyn-coch*

Medi

**18** Ail rownd - Cwpan Emrys Morgan Penrhyn-coch 3 Crwydriaid y Drenewydd 1

**25** Penrhyn-coch - Llanfair Unedig - gohiriwyd

Hydref

**9** Bow Street 2 Penrhyn-coch 0



Gêm Penrhyn-coch Llandudno 11 Medi. (Llun: Beverley Hemmings)



**Clwb Sul Horeb**

Ifan, Math, Elen, Twm, Ned, Ywain, Caio, Miriam a Florence - aelodau o Glwb Sul Horeb, sydd yn cwrdd ar Zoom, gyda'u lluniau "'Rwyf yn ddiolchgar am…"

# Adroddiad Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

Ar ôl blwyddyn a hanner anodd I Fudiad y Ffermwyr Ifanc drwy Geredigion oherwydd y pandemig, mae Clwb Tal-y-bont wedi ailafael ym mhethau mis yma drwy benodi swyddogion newydd - sef Sara ac Alwenna Jenkins fel Cadeiryddion, Bedwyr Siencyn fel Ysgrifennydd, Luned Jones fel Trysorydd, Elen Madrun a Mari Gibbson fel Swyddogion y Wasg a Sion Pennant fel ein Swyddog Cofid! Er mwyn cadw y swyddogion mewn trefn, mynychodd nifer y noson 'Hyfforddiant Swyddogion Sirol' yn Neuadd Goffa Felin-fach ar y 1af a'r 2il o Fedi.

'Rydym wedi cynnal nosweithiau wythnosol ers dechrau Medi yn yr awyr agored. I gychwyn, cafwyd noson hwyliog o 'Helfa Drysor'. Cafwyd sawl car llawn a gwelwyd rhyfeddodau megis bedd Taliesin, Pen Llyn yn y machlud, dysgom sut I ddal gwybedyn a gafael mewn asgall pigog ar gyfer y beirniaid a'r trefnwyr, Alwenna a Sara! Fe wnaeth pawb fwynhau y wledd ar y diwedd yn y Llew Du, Tal-y-bont. Yr wythnos ganlynol, aeth criw ohonom gyda Lowri a Sera ar daith gerdded drwy goed Pen-glais, heibio'r Clwb Golff a Chonsti gan orffan ar y prom yn Aberystwyth i gael boliad o sglods. Golygfeydd a machlud godidog. Yr wythnos ganlynol, cafwyd noson o hwyl a sbri yn 'Olympics' Tal-y-bont ar gaeau'r ysgol. Bydd ambell i dalent yn sicr o gyrraedd y gemau go iawn



ym Mharis ymhen tair blynedd! Diolch I Sara a Sion am drefnu! I orffan y mis, cynhaliwyd Helfa GeoCache o gwmpas Tal-y-bont o dan arweiniad Sion. Profiad newydd i lawer ohonom ond 'roedd y dortch a'r dillad glaw yn ddefnyddiol iawn yn ogystal a ffonau drudfawr er mwyn lawrlwytho'r App a'r Android! Bydd mis Hydref yn brysur wrth i ni gynnal rhagor o weithgareddau a pharatoi at Eisteddfod Clybiau'r Sir dros hanner tymor ym Mhafiliwn y Bont. Diolch i bawb wnaeth drefnu nosweithiau difyr ym mis Medi a chofiwch fod croeso cynnes i unrhyw un ymaelodi efo'n Clwb yn Nhal-y-bont sydd rhwng 11 oed a 28 oed – ni gan amlaf yn cwrdd wrth y Neuadd am 7.30pm bob nos Fawrth.

**Elen Madrun**

## Siarad cyfrolau

"Siarad Cyfrolau" – "Speaking Volumes" Teitl llyfr yw'r uchod i gyfrol ddwyieithog gan Rhian Evans. Cyhoeddodd Llyfrau Llafar Cymru y gyfrol mewn lansiad yn Yr Egin, Caerfyrddin ym mis Gorffennaf.

Mae'n gyfrol arbennig gan mai Rhian ei hun, fu'n gyfrifol gyda chefnogaeth eraill, i sefydlu yn gyntaf, Papur Llafar y Deillion Caerfyrddin a'r cylch yn 1976 ac ymhen tair blynedd, dechreuwyd Cynllun Casetiau Cymraeg. Nid yn unig bu Rhian yn un o sylfaenwyr y mentrau hyn, ond hi hefyd fu'n bennaf gyfrifol am eu datblygu. Mae wedi parhau yn allweddol ac yn asgwrn cefn datblygiad Llyfrau Llafar Cymru ers ei sefydlu'n swyddogol yn 2011 pan orffennodd Cynllun Casetiau Cymraeg.

Yn y gyfrol mae'n sŵn am ei phrofiadau personol ac yna'n mynd rhagddi i roi hanes llawn am y datblygiadau a gwireddu ei breuddwyd i alluogi personnau dall neu a nam golwg i wybod yr hyn sy'n digwydd yn eu hardal drwy *wrando* ar ddarllenwyr *Papurau Bro* o bob cwr o Gymru ac i fwynhau *gwrando* llyfrau a recordiwyd gan wirfoddolwyr yn stiwdio Tŷ Llafar, Caerfyrddin.

Medrwn ddweud bod y ddau gynllun rhyngddynt, wedi recordio dros 2,500 o lyfrau sain, y mwyafrif yn y Gymraeg a nifer hefyd yn Saesneg. Yn gyfredol, mae 450 yn derbyn ein "*llyfrau"* yn rheolaidd heb unrhyw dâl am y gwasanaeth, i *"wrandawyr*" ledled Cymru.

Roedd y gyfrol, a argraffwyd gan Wasg Garreg Gwalch, yn barod i'w chyhoeddi fis Mawrth 2020, ond oherwydd y pandemig, rhaid fu gohirio'r achlysur. Hyderwn na fydd hyn yn amharu ar eich mwynhad o ddarllen y llyfr.

Mae'r gyfrol ar werth drwy aelodau'n Pwyllgorau am £5. Ond gellir ei archebu drwy'r post am £7 yn cynnwys cludiant. Danfonwch am eich archeb i: Tŷ Llafar, Adeilad 23, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SW31 3HB; neu ffonio'r Swyddfa: 01267 238225 neu trwy e-bost i: *llyfraullafarcymru@outlook.com*

**Sulwyn Thomas (Cadeirydd Llyfrau Llafar Cymru)**

**Wynn Vittle (Ysgrifennydd)**







# Enwau lleoedd

## Angharad Fychan

Wrth deithio o Lanbadarn Fawr i gyfeiriad Gelli Angharad, yn fuan wedi pasio Ystad Ddiwydiannol Glanyrafon, fe welwch *Felin Person* neu *Parson's Mill* yn swatio ar y dde islaw'r briffordd (SN613807). Melin oedd hon ar gyfer malu ŷd neu rawn, a châi ei gyrru gan ddŵr a ddargyfeiriwyd o afon Rheidol.




**Map Arolwg Ordnans 6" (1887) Ceredigion VI SW**
**© Arolwg Ordnans (100064713)**

Mae Coflein (https://coflein.gov.uk/cy/safle/24745) yn nodi bod yr adeilad trillawr presennol yn perthyn i'r ddeunawfed ganrif, ond roedd melin ar y safle ganrifoedd cyn hynny. Yn *The Place-Names of Cardiganshire* (2004; t.1017) fe'i huniaethir â'r 'mill on Rheidol' o'r ddeuddegfed ganrif a gofnodir yn *Episcopal Acts and Cognate Documents Relating to Welsh Dioceses 1066-1272* (J. Conway Davies; 1946; cyf. 1, t.282).

Enwir y felin am y tro cyntaf mewn dogfen ymhlith papurau Stad Gogerddan yn 1583, lle mae Syr Henry Johnes, Abermarlais, yn cydnabod derbyn taliad gan John Pryse, Gogerddan, am *Parson's Mill*.

Daw'r enghraifft gynharaf o ffurf Gymraeg yr enw o ddogfen sy'n nodi daliadau, deiliaid, a rhenti maenor Llanbadarn Fawr ar 30 Ionawr 1597/8:

> The said jury do present one water grist mill situated and lying within the said lordship called *Melin y Person* now in the tenure of Sir Thomas Johnes knight and his assigns of the yearly value of £ 3 6s. 8d.
>
> *Ceredigion*, 5 (1964), t.53.

Dengys y ddogfen hon bod y felin yn arfer bod yn eiddo i fynachlog Sistersiaidd ddiddymedig Vale Royall yn swydd Gaer. Tybed felly, o ystyried y cysylltiad crefyddol hwn, ai *person* yn yr ystyr 'un yn dal bywoliaeth eglwysig plwyf, rheithor' sydd yma?
Yn anffodus, yr enw 'Grovener Holiday Park' sydd ar ben y lôn heddiw, a 'Grovener Farm' sydd wedi ei nodi yng nghyfeiriadur y Swyddfa Bost. O ganlyniad, mae perygl i'r cof am yr enwau hynafol, *Felin Person* a *Parson's Mill*, ddiflannu, wrth i ni weld enghraifft arall o'n hanes a'n hetifeddiaeth yn cael eu herydu.
Yr unig gysur yw bod *Gwarfelin*, yr ochr uchaf i'r briffordd (SN612807), yn parhau i'n hatgoffa o enw gwreiddiol a lleoliad y felin. Mae'n werth nodi mai *Gwar y Felin Person* oedd hen ffurf lawn yr enw hwnnw, a bod cofnod ohono ar garreg fedd yn eglwys Llanbadarn Fawr.




Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

Bydd o ddiddordeb i ddarllenwyr fod erthygl Dr Angharad Fychan yn y gyfrol *Ar drywydd enwau lleol* (Y Lolfa) wedi ei seilio ar y triawd enwau, Gochel Gwympo, Gochel Dwmblo a Gochel Foddi, yng Nghwmerfyn.










YTincer@googlemail.com

# Capel Bangor

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Sarah a Philip Hughes, Rhoslwyn, ar enedigaeth merch fach – Daisy Esther Hughes ar 24 Medi.

Llongyfarchiadau hefyd i Peter Humphreys, y Fron, ar ddod yn dad-cu eto – ganwyd merch fach – Hattie – i Gerallt ac Amber yng Ngoginan.

**Merched y Wawr Melindwr**
Nos Fawrth 5ed o Hydref daeth 13 aelod at ei gilydd am ail gyfarfod y tymor. Da oedd gweld a chlywed y cymdeithasu oedd yn amlwg ar ôl cymaint o amser i ffwrdd.

Cychwynwyd gan groesawu pawb yn enwedig aelod newydd. Ar ôl treulio ychydig o amser yn trafod gweithgareddau y Rhanbarth a chynllunio'r ffordd ymlaen cafwyd noswaith o Brethyn Cartref . Beti Daniel ein trysorydd gychwynodd gyda'i dangosiad gwaith llaw. Yn gyntaf planced enfawr liwgar wedi'i chrosio erbyn ei phriodas dros 40 mlynedd yn ôl. Yna roedd gwledd o wahanol ddillad gwlân. Pwysleisiodd bod pris gwlân heddiw yn hynod o ddrud i'w brynu ond bod pris gwlân defaid mor wael nid ydyw yn talu am gostau cneifio!

Yn dilyn aeth Eirlys Davies a ni i ardal Mynydd Bach a Llyn Eiddwen. Dangoswyd llun hyfryd o'r ysgol gafodd ei lunio gan arlunydd lleol ac lle roedd atgofion melys o'i ffrindiau cynnar.

Yna dangoswyd seld neu ddresar bach "miniature" oedd yn hen ddarn teuluol. Rhanwyd hanes y darn bach del wedi'i addurno dros y blynyddau gan lestri glas a gwyn pwrpasol prynwyd ganddi yn siop Llestri Miss Jenkins, Western Parade. Diflanodd y rhes o siopau bach i wneud lle i'r safleodd bysiau yn y dref. Cyn mynd am adref mwynhaodd pawb baned a chlonc go dda.

Gobeithio byddwn yn mwynhau ein cyfarfod nesaf cymaint. Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni ar Dachwedd 2il am 7-30yh.



**Gradd Meistr**
Yn y rhifyn diwethaf, fe cofiwch fod Ieuan Evans, Rhiwarthen, wedi dechrau yn ei swydd newydd, gyda " Storth Machinery" yn  Kendall, ac wedi cyflwyno thesis i'r cwmni ar gyfer ei radd Meistr. Erbyn hyn y mae yn swyddogol ei fod wedi derbyn ei radd gydag anrhydedd. Mae Ieuan yn edrych yn reit fodlon, a hynny yn haeddiannol iawn. Dymuniadau gorau iddo.



**Sialens y Tri Chopa (3 peaks challenge)**
Y mae'r sialens hon yn medru bod yn ddigwyddiad pan fydd unigolion yn ceisio dringo y mynyddoedd uchaf yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, o fewn 24awr, i godi arian i elusen.

Bydd y rhai mentrus, yn dringo pob copa yn eu tro, ac yna cael eu cludo o un droed y mynydd i'r llall.

Dyna yn union a wnaeth chwech o fechgyn yr ardal ym mis Awst eleni. Llongyfarchiadau mawr i chi bois. Tipyn o sialens yn wir i orchfygu Ben Nevis (1345m), Scafell Pyke (978m) a'r Wyddfa (1085m). Mae'r arian a godwyd gan y bechgyn yn mynd tuag at y "National 3 Peaks Challenge Alzheimer's Research uk" pe bai rhywun yn dymuno cyfrannu. Diolch i Mrs Iris Richards am dynnu sylw at y digwyddiad, ac am ddygnwch y bechgyn.

Dymuniadau gorau i chi i gyd – Huw Richards, Rhydian Davies, Dan John, Huw Jones, Ian Price, a Lee Worthington.

**Gwasanaeth Capel Pen-llwyn**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch y Teulu ar Sul, 10fed o Hydref dan arweiniad y Gweinidog, Dr. Watcyn James. Thema y gwasanaeth oedd Diolchgarwch – y greadigaeth a'r amgylchedd. Dyfynwyd adnodau o Deuteronomiwm 8fed bennod "Mae'r Arglwydd eich Duw yn dod a chwi i wlad dda, gwlad ac ynddi ffrydiau dŵr, ffynhonnau a chronfeydd yn tarddu"... ac yna Salm 24 "Eiddo'r Arglwydd yw'r ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo".  Dangoswyd sleidiau o greu'r byd yn y dechreuad a chyrraedd y 7fed diwrnod a Duw yn gorffwyso heb sôn am ddiwedd i'r diwrnod yma, fel y diwrnodau eraill a grewyd, bu hwyr a bu bore. Cymerwyd rhan gan aelodau ac ieuenctid yr Ysgol Sul a chafwyd cwis ar ofalu am y greadigaeth ac emyn newid hinsawdd gan Eirian Dafydd yn glo ar y cyfan. Da oedd gweld nifer dda wedi troi i mewn i gyd-addoli ac i gydnabod "Mai ar ei drugareddau, yr ydym oll yn byw". Diolchwyd i Dr. James am ei wasanaeth a'r holl ymdrech wrth baratoi ar ein cyfer.

**Diolch**
Dymuna Heulwen Lewis, Deiniol, ddiolch o galon i bob un am ei caredigrwydd a'i haelioni wrth iddi dreulio ychydig amser yn yr ysbyty yn ddiweddar. Caiff y cariad a'r help ei werthfawrogi yn fawr ganddi.





**Cylch Meithrin Pen-llwyn**

Rydym wedi cael mis prysur gyda llawer o adnoddau newydd trwy garedig rodd arian grant gan Gyngor Ceredigion. Derbyniom dŷ bach twt newydd sy'n plesio'r plant yn fawr. Derbyniom hefyd nifer o eitemau pren ac addysgiadol gan gwmni lleol Playwood Ceredigion a oedd yn cynnwys cwmwl prysur, wal ddŵr a thelesgop. Ar ddydd Gwener, Hydref 15 dathlwyd diwrnod Shwmae, Su'mae lle gwnaeth pob plentyn ddechrau ei diwrnod gyda "Shwmae".

**Ymddeoliad**

Dymuniadau gorau i Miss Delyth Davies, Maencrannog sydd wedi ymddeol yn ddiweddar. Bu Delyth yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth am ddeng mlynedd ar ôl treulio blynyddoedd fel athrawes gynradd. Pob dymuniad da.

Hefyd dymuniadau gorau i Mrs. Margaret Powell, Brynheulog sydd wedi ymddeol yn ddiweddar o'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Byddai croeso Margaret yn Pen Dinas yn gwneud y pryd bwyd yn mwy blasus byth. Diolch am eich gwasanaeth chithau a phob dymuniad da.



## Trefeurig

**O Brighton i'r topie**

Ar ôl darllen llyfr Richard E. Huws, *Pobl y Topie*, penderfynodd gŵr o Brighton ymweld â'i wreiddiau yng Ngheredigion am y tro cyntaf. Mae Julian Morgan yn or-ŵyr i Thomas Morgan (Professor Melini), a nodir yn y gyfrol, a chafodd Julian gyfle i weld cartrefi ei deulu yn Llawrcwmbach (Bont-goch), Tanybryn (Salem) a Bwlch Villa (Cwmerfyn). Dyma lun o Julian uwchben Llawrcwmbach, taith a wnaethpwyd yno yng nghwmni'r awdur. Roedd gan Julian hefyd luniau diddorol i'w dangos o'i hen dad-cu a'i gymar ar y prom yn Aberystwyth tua 1935, a llun prin o Bwlch Villa.







CWMERFYN

**Pen blwydd arbennig**

Pen blwydd hapus iawn i Hywel Lewis, Fferm Cwmerfyn a fu yn dathlu ei ben blwydd yn 70 oed ddiwedd mis Medi. Siŵr fod Hywel wedi mwynhau cael y merched i gyd adre i ymuno yn y dathlu.

GWASANAETH GARDDIO MYNACH

Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# BRO360

Helo bawb – gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iawn. Rhywbeth bach gwahanol gennai'r mis yma, yn lle'r golofn denau arferol. Mae di bod yn haf prysur iawn acw'n BroAber360, hefo llwyth o straeon diddorol, aml-gyfrwng gan gyfranwyr newydd, a chwpwl o bethau newydd cyffrous yn digwydd hefyd. Un o'r pethau yma oedd Gŵyl Bro – lle cynhaliwyd dros 20 o ddigwyddiadau ar draws Arfon a Cheredigion er mwyn dathlu ein cymunedau, hefo'r rhan helaeth wedyn yn adrodd hanesion eu digwyddiad ar eu gwefan fro. Mae'n dangos sut all y gwefannau bro gadw'r momentwm i fynd wedi digwyddiad, a gobeithio ysbrydoli eraill i gynnal pethau eu hun yn saff.

Ac wrth siarad am ddigwyddiadau, rydym hefyd yn falch iawn o allu datgelu fod calendr newydd sbon BroAber360 nawr ar gael i'w defnyddio! I weld, ewch i'r wefan, ac i'r tab Digwyddiadau. Neu os yda chi eisiau gweld digwyddiadau ledled Cymru, ewch i www.calendr.360.cymru! Mae'n wirioneddol hawdd i'w ddefnyddio, felly pam ddim rhoi cynnig ar ychwanegu eich digwyddiad os rydych yn trefnu rhywbeth?

Hefo'r holl bethau yma mlaen, efallai da chi'n meddwl fod hi di bod yn fis tawel i straeon ar y wefan – ond di hynna'm yn wir chwaith! Mae llwyth o straeon wedi cael ei greu dros y mis diwethaf, a'r rhan fwyaf gan gyfranwyr newydd, sydd yn grêt i weld! Dyma rai o'r straeon:

- Oriel luniau o Daith Tractorau Ysgol Penrhyn-coch. Diolch i Bethan Evans am yr oriel luniau yma o'r daith, a chodwyd dros £1600 i'r Ysgol. Gwaith grêt gan bawb!
- Lansio Clwb Rotari newydd yn Aberystwyth. Diolch i Kerry Ferguson am greu ei darn cyntaf i'r wefan, sydd yn sôn am y Clwb newydd a sefydlwyd yn Aber mis diwethaf. Os oes diddordeb gennych mewn ymuno, mae manylion yn y darn!
- Dechrau amrywiol i dymor Cynghrair Cambrian Tyres. Mae'n gychwyn tymor arall yn y byd pêl-droed, a Mererid Boswell sydd wedi bod wrthi'n adrodd ar ganlyniadau timau lleol gan gynnwys Llanilar, y Borth a Padarn.

Fel gallwch weld, mae 'na lwyth o stwff diddorol ac aml-gyfrwng ar y wefan. Os rydych eisiau creu, neu eisiau dysgu mwy am y wefan ac yn dymuno cael sgwrs, mae croeso i chi gysylltu â mi ar danieljohnson@golwg.com.

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

# Dolau

**Ultramarathon i godi arian tuag at Ward Dyfi Ysbyty Bron-glais**

Ar ddydd Sadwrn, y 16eg o Hydref, bydd Lowri, Ffion a Iestyn, Fronddel, rhedodd 50 cilomedr o amgylch llwybr arfordir Gŵyr i godi arian tuag at Ward Dyfi Ysbyty Bron-glais (uned gardiaidd), i gefnogi'r gwaith allweddol maent yn ei gyflawni er budd cymuned wledig Ceredigion.

Bydd cyfraniadau yn mynd tuag at brynu teclyn bach all y cardiolegwyr yn ei gario o amgylch yn eu pocedi. Bydd hyn yn galluogi iddynt wneud sgan cyflym o galonnau cleifion wrth ochr y gwely, i'w helpu i wneud diagnosis cyflym a phenodi'r driniaeth gywir.

Gallwch gyfrannu tuag at yr achos drwy ymweld â thudalen JustGiving ar-lein;

https://www.justgiving.com/crowdfunding/ward-dyfi

Neu drwy gyfrannu yn y dull mwy traddodiadol wrth weld Lowri o amgylch.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau.

**Un o wobrau'r Coleg Cymraeg**

Llongyfarchiadau i'r Dr Huw Williams, Uwch-ddarlithydd Athroniaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, sydd wedi dod i'r brig yn un o wobrau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Guto a Fflur Jones, Cae Ffynnon, ar enedigaeth mab Math Owen Jones ar ddydd Mercher y 6ed o Hydref.

# Yr Urdd

Yn ystod yr wythnosau diwethaf dechreuodd Caryl Griffiths ar ei gwaith fel Swyddog Celfyddydau a Gwersylloedd – Ceredigion yr Urdd. Yn frodor o Langrannog a chyn-ddisgybl o Ysgol Bro Teifi astudiodd am radd mewn cerddoriaeth yng Ngholeg Goldsmiths Llundain cyn gwneud PGCE yn y Drindod Abertawe.



Mae Caryl yn wyneb cyfarwydd yn lleol gan iddi dreulio cyfnodau ar staff ysgolion Comins-coch a Rhydypennau. Bu Caryl yn weithgar efo CffI Caerwedros ac mae'n hen law ar gystadlu mewn eisteddfodau. Dymunwn yn dda iddi ar ei gwaith.

### Cyhoeddi Rhestr Testunau Eisteddfod yr Urdd 2022

Mae Eisteddfod yr Urdd yn falch o gyhoeddi Rhestr Testunau Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022.

Mae'r rhestr yn amrywio o gystadlaethau llwyfan a chyfansoddi i blant a phobl ifanc o dan 25 oed, a ddewiswyd gan banelau lleol a gwirfoddolwyr o Sir Ddinbych, wedi hir ymaros o ganlyniad i'r pandemig. Gellir lawrlwytho Rhestr Testunau 2022 a rheolau cystadlu yn rhad ac am ddim oddi ar wefan Eisteddfod yr Urdd.

Bydd cofrestru i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych yn agor ar y 1af o Ragfyr 2021 ac yn cau ar y 14 o Chwefror 2022. Bydd cystadlaethau amgen Rhestr T yn cael eu cyhoeddi yn y gwanwyn, yn dilyn llwyddiant gŵyl ddigidol Eisteddfod T.

Gobaith y mudiad yw cynnal Eisteddfod yr Urdd 2022 yn Sir Ddinbych yn ystod hanner tymor y Sulgwyn.

### Gwobrwyo Enillwyr Eisteddfod yr Urdd 2020-21

Yn ystod wythnos y 18fed o Hydref bydd Eisteddfod yr Urdd yn gwobrwyo'r holl waith Cyfansoddi a Chreu buddugol ddaeth i law yn 2020, cyn gorfod gohirio'r Eisteddfod yn Ninbych oherwydd Covid-19.

Fel rhan o wythnos arbennig ar blatfformau digidol yr Urdd, yn ogystal ag ar raglen Heno, S4C ac ar BBC Radio Cymru, cynhelir dathliad o weithiau buddugol a chyhoeddir enillwyr cystadleuaeth y Gadair, y Goron, y Fedal Ddrama a'r Fedal Gyfansoddi.

Bydd y Prif Lenor yn derbyn Coron wedi'i chreu gan y cerflunydd Mared Davies, a'r Prifardd yn ennill Cadair wedi'i cherfio gan y saer Rhodri Owen. Cwmni gemwaith Rhiannon o Dregaron sydd wedi creu'r medalau ar gyfer y Prif Ddramodydd a'r Prif Gyfansoddwr.

Eleni am y tro cyntaf, bydd Eisteddfod yr Urdd yn cyhoeddi *Deffro*, cyfrol y cyfansoddiadau ar ei newydd wedd wedi ei guradu gan ddau o gyn-enillwyr Eisteddfod yr Urdd. Brennig Davies, Prif Lenor Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019 yw golygydd creadigol y gyfrol ac Efa Lois, Prif Artist Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018 sydd wedi ei dylunio. Gyda chefnogaeth y Cyngor Llyfrau, bydd ar gael fel e-lyfr ac o siopau llyfrau Cymraeg lleol o Ddydd Gwener, 22 Hydref.

Bydd rhestr gynhwysfawr o'r holl enillwyr a'r beirniadaethau ar gael ar wefan Eisteddfod yr Urdd o Ddydd Llun, 18 Hydref.

## Cyngor Cymuned GENEU'R GLYN

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor: cyngorcymunedgeneurglyn communitycouncil.wordpress.com**

**Dyddiad y Cyfarfod**: 27.09.2021 yn rhithiol, 'roedd pob aelod yn bresennol. (Os dymunwch fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod, cysylltwch â'r Clerc).

**Trafodwyd**:

- **Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor. Manylion taliad praesept 2. Taliadau i'w awdurdodi i dalu;
- **Enwebu Is-Gadeirydd:** Carwen Hughes Jones;
- **Parc a'r Cyrtiau Tennis**: Yr Is-Bwyllgor i gwrdd yn y parc i drafod yr awdit, datblygiadau a gohebiaeth;
- **Adroddiad gan y Cyng Ray Quant**: Derbyniwyd diweddariad ar y sefyllfa bresennol ledled Ceredigion;
- **Eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf**: Datblygiadau'r Parc yn y Dyfodol. Lleoliad cyfarfod Mis Tachwedd;
- **Cais Cynllunio:** A210782 Maes Carafannau 'Riverside' – Dim gwrthwynebiad.
- **Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 25 Hydref 2021 trwy Zoom.

Pauline Lucas:
clercgeneurglyn@yahoo.com

YTincer@googlemail.com







# Llandre

**Ymddeoliad hapus**
Dymuniadau gorau i Llio Penri ar ei hymddeoliad o'i swydd fel Pennaeth yr Adran Gerdd yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Catrin Mai a'r teulu ar farwolaeth ewythr – Gareth Jones – yng Nghaerdydd.

**Llenorion Llandre**
Llongyfarchiadau i Gweni King, Rhys Tanat Morgan, Miriam Llwyd Davies a Glain Davies ar ennill cystadlaethau llenyddol yn Eisteddfod yr Urdd. Cyhoeddwyd enillwyr y cystadlaethau llenyddol dydd Llun 18 Hydref.

**Cyfrannu i gyfrol**
Llongyfarchiadau i Gwenda James, Tremedd, ar ei chyfraniad am 'Sanau Nadolig' i'r gyfrol *Caru crefftio* (Carreg Gwalch) sydd newydd ymddangos o'r wasg.




Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

## Cyngor Cymuned Tirymynach

Cynhaliwyd cyfarfod mis Medi o'r Cyngor ar nos Iau 30 Medi yn ystafell Leri, Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cadeirydd y Cyng. Robert Pugh, croesawodd bawb i'r cyfarfod, a chyfeiriodd eto at iechyd bregus y Gynghorwraig Meinir Lowry gan ddymuno gwellhad buan iddi.

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Gorffennaf, fel rhai cywir. Yn codi o'r cofnodion, trafodwyd Ffens Cae Chwarae Bryncastell, gan ganolbwyntio ar ba fath o bolion fyddai yn addas i ddisodli yr rhai pwdr. Gwneir y dewis terfynol gan rai o'r Cynghorwyr a'r Clerc.

Polyn y Faner, yn yr un modd bydd rhaid dewis y teip priodol fydd yn ddiogel ac yn gwrthsefyll y tywydd. Gobeithir cael cadarnhad ar broblem y polion ffens a'r faner erbyn y cyfarfod nesaf.

Cafwyd adroddiad misol y Cynghorydd Paul Hinge ac amlinellodd nifer o weithgareddau y bu yn edrych arnynt yn ddiweddar. Yn eu mysg yr oedd ceisiadau cynllunio o fewn yr ardal a chyflwynwyd lluniau digidol i'r cyfarfod o dai arfaethedig fydd yn cymryd lle yr hen fodurdai yn ystad Tregerddan. Dim gwrthwynebiad. Yna llun o'r adeilad newydd yn lle adeilad yr hen Glwb ym Mharc Gwyliau Glan y Môr, Clarach, adeilad a fydd yn darparu ystafell fwyta, a swyddfeydd, ac ardal adloniant. Hwn wedi ei gymeradwyo.

Daeth cais oddi wrth bwyllgor Neuadd Rhydypennau am gymorth ariannol ychwanegol i'r cyfraniad arferol maent yn ei dderbyn gan y Cyngor. Cafwyd manylion am y costau i'r gwaith fydd yn cael ei wneud yn y Cam Cyntaf o ddau dros y 5 mlynedd nesaf. Penderfynwyd ychwanegu at y £3,500 blynyddol i £5000 a hynny am y 5 mlynedd nesaf. Llongyfarchwyd pwyllgor y Neuadd ar y gwaith ardderchog y maent wedi ei gyflawni yn barod, a diolch iddynt, yn enwedig bod rhai gweithgareddau yn medru cael eu cynnal yma ar hyn o bryd.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth dau o drethdalwyr Cae'r Odyn yn gofyn a oedd modd cael lloches bws ar y safle ger yr ysgol i gysgodi plant sy'n mynd i'r gwahanol ysgolion. Ni all y Cyngor wneud dim oherwydd nid ni (Cyngor Tirymynach) biau'r tir, neu byddem yn medru ariannu un ein hunain.

Ond ar y pwynt o ddymchwel y llochesau presennol adroddwyd mai cynllun gan y Senedd yw hwn a hwy sydd ariannu y prosiect. Ac ni fydd ein Cyngor yn gyfrifol am y cynnal a chadw ar y rhai a godwyd gan y Cyngor.

Ail ran y llythyr oedd pryder am y groesfan sebra sydd yn beryglus i groesi ar brydiau, ac yn gofyn a fyddai posibl cael croesfan pelican gyda goleuadau, a fyddai yn ddiogelach i groesi.

Adran y Priffyrdd sydd yn gyfrifol am y groesfan, a gwyddys nad ydynt yn cefnogi gormod o oleuadau ar y brif ffordd ar hyn o bryd. Ond deallir bod deiseb yn mynd o gwmpas am y ddau gais uchod, a penderfynwyd ei gefnogi yn llwyr.

Disgwylir i'r Cyngor Sir fod yn gyfrifol am dorri y coed yn y gwrych o dan Bryncastell sydd yn plygu trosodd i'r ffordd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 28 Hydref.

GWE Cambrian WEB
Gwefannau
Gwych o Gymru
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
Cysylltwch Heddiw
info@cambrianweb.com
01970 623 906

*Trefnwyr Angladdau*
**C T Evans**
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

*Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem*
**Gwefan Cymuned Trefeurig**
**trefeurig.cymru**
- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer
Gwefan Trefeurig Website Trefeurig8
whhowells@gmail.com



## Goginan

**Pen blwydd hapus**
Mae dau o frodorion yr ardal wedi cyrraedd pen blwyddi arbennig at ddiwedd mis Medi. Ian Sant , Ravensclough wedi cyrraedd wythdeg ac Alun Griffiths, Tynbedw yn saithdeg. Gobeithio y cawsant amser da yn dathlu.

**Sgwrs dan y Lloer**
Braf oedd gweld Caryl Lewis, (Hughes), Hafodau yn cael sgwrs gyda Elin Fflur yn ei gardd am ei hanes i'r rhaglen Sgwrs Dan y Lloer sydd yn cael ei darlledu ar S4C ar nos Lun.

**Rhodd**
Yn ystod yr adeg clo cyntaf penderfynodd Stephen Baxter (mab Colin a June Baxter, Oakdale) sydd yn berchen y cwmni “Welsh Hot Tubs” roi canran o bob gwerthiant i adran Cemotherapi, Ysbyty Bron-glais am y driniaeth dderbyniodd Charlotte, gwraig Stephen. Cyflwynwyd siec o £5000 gan Stephen a Charlotte i Dr Elin Jones.



**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Gerallt ac Amber Humphreys, Blaendyffryn ar enedigaeth Hattie ar Hydref y cyntaf. Rwyn siwr fod Betsan ei chwaer fawr yn falch o'r newydd ddyfodiad. Mae Hattie hefyd yn wyres i Peter Humphreys, Y Fron, Capel Bangor.

**Ffordd ar gau**
Bu'r brif-ffordd y tu allan i Goginan ar gau am dair awr ar ddeg yn ddiweddar. Bu tair lori gyrhaeddodd toc wedi 10 yr hwyr nos Fawrth, yna a heb eu rhyddhau tan 11:10 fore Mercher.

Yn ôl y sôn, olew gwresogi oedd wedi achosi y difrod ond mae'n debyg fod cyflwr dychrynllyd ar un tamed o'r ffordd yn y bore.

Mae trigolion yr ardal yn gynddeiriog am sefyllfa yr heol. Roedd y ddamwain hon ond un o dair fawr, heblaw am sawl un fach ddiweddar. Mae'r goleuadau yn aml yn rhewi ac nid oes sicrwydd fod unrhyw waith yn mynd i gael ei wneud yn y dyfodol agos. Mae pawb wedi cael digon ond am ryw reswm er ei bod yn heol brysur iawn does fawr iawn o waith wedi ei wneud ar y darn yma o'r A44 ers blynyddoedd.

Bu sawl darllenydd mewn cysylltiad â'r cyfryngau (Newyddion a Thywydd Radio Cymru acyb) i dynnu eu sylw mai Gelli Angharad oedd enw Cymraeg y gylchfan gan eu bod nhw yn mynnu defnyddio Lovesgrove am ryw reswm.






# Taith Gerdded Bont-goch

Un arall o gyfres ‘Taith Gerdded yr Wythnos’ Cyngor Sir Ceredigion.

Mae hon yn daith o 11km /7 milltir gan ddechrau o bentref Bont-goch.

O lwybr troed glan yr afon i gaeau agored, mae llwybrau cul serth yn arwain at draciau ucheldir gwyllt anghysbell.

Mae'r daith yma ar gyfer cerddwyr cymedrol iach. Mewn tywydd gwael mae'r llwyfandir ucheldirol yn agored a gall fod yn anodd ffeindio eich ffordd.

Cofiwch ...

· Ymgyfarwyddo ag unrhyw ganllawiau cyfredol, lleol ynghylch teithio i wneud ymarfer corff.

· Cadw pellter cymdeithasol bob amser, parchur amgylchedd a dilyn y Cod Cefn Gwlad.

Mae mwy o wybodaeth am gynllun Taith Gerdded yr Wythnos ar gael ar dudalen Archwilio Ceredigion ar wefan y Cyngor.

Gallwch hefyd anfon neges e-bost i Countryside@ceredigion.gov.uk neu ffonio 01545 570881 a gofyn am gael siarad ag aelod o'r tîm Arfordir a Chefn gwlad.

Pob hwyl ar eich taith!







# Ysgol **Rhydypennau**



Tu allan y Mint yn Llantrisant

**Ymweliadau**

Braf iawn, o'r diwedd yw cael nodi ein bod ni bellach wedi gallu trefnu ymweliadau addysgol oddi ar safle'r ysgol.

**'Arian, Arian, Arian'!**

Gan mai 'Arian, Arian, Arian' yw thema blwyddyn 5 a 6 y tymor hwn, manteisiwyd ar y cyfle i drefnu ymweliad addysgol lawr yn y Mint Brenhinol. Felly, yn gynnar ar fore'r 21ain, cludwyd 47 o blant cyffrous iawn ar y bws i Lantrisant! Ac er ein bod yn parhau i ddilyn canllawiau Covid, fe gafwyd ymweliad arbennig iawn. Yn ystod y dydd, cafodd y plant eu tywys o gwmpas y ffatri er mwyn gweld y bathdy ar waith. Cafodd y plant hefyd weithdy ar hanes systemau arian gwahanol o gwmpas y byd. Roedd hyd yn oed amser i ddysgu am hanes sefydlu'r Bathdy yn Llantrisant nôl ym 1967 ble ddechreuwyd ar y newid mawr i'r system ddegol ar ddechrau'r 70au a chafwyd gyfle hefyd i brynu darn 50c arbennig wedi ei fathu'n bersonol gan ein plant.

**Ynys-hir**

Trannoeth, ar yr 22ain o Fedi, cludwyd plant blwyddyn 3 a 4 i Warchodfa Natur yr RSPB yn Ynys-hir. Roedd hwn yn gyfle gwych i'r plant fentro allan o'u dosbarthiadau i ddysgu am fyd natur yn yr awyr agored. Yn ystod yr ymweliad cafodd y plant gyfle i fwynhau amryw o weithgareddau natur gan gynnwys rhwydo bywyd gwyllt o byllau dŵr, dilyn map o gwmpas y goedwig i ganfod adar a chasglu dail, hadau a chnau i greu 'collage' arbennig. Diolch yn fawr i Jenny Dingle o'r warchodfa am y gweithgareddau gwych.

Diolch hefyd i gymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol am gwrdd â chostau sylweddol y ddau ymweliad ac, o ganlyniad, sicrhau dau ddiwrnod difyr iawn i'r plantos!

**Cynhaeaf**

Mae cynnyrch gardd lysiau'r ysgol yn barod! Ac mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi manteisio ar ansawdd arbennig ein cynnyrch eleni. Mi fuodd plant y dosbarth Derbyn yn casglu, golchi, plicio a choginio pentwr mawr o datws er mwyn mwynhau gwledd hynod o flasus ar ôl eu gwaith caled!



Y beicwyr yn pasio

**Taith Feicio Prydain**

Cafwyd cyffro mawr ar yr 8ed o Fedi gan fod Taith Feicio Prydain yn pasio'r ysgol. Ac er mai chwim iawn oedd yr olygfa ychydig cyn hanner dydd, cafodd y beicwyr eu croesawu'n frwd gyda llwyth a sŵn a chefnogaeth gan holl blant yr ysgol!



Blwyddyn 3 a 4 yn y Warchodfa yn Ynys-hir

**Ffarwelio**

Hoffa'r ysgol ddiolch o galon i Miss Claire Creevy am yr oriau gwerthfawr a threuliodd yn yr ysgol yn coginio ac yn gofalu am ein disgyblion dros y pum mlynedd ddiwethaf. Dymunwn pob hwyl iddi yn ei swydd newydd.




Wil a Ted y cricedwyr.

**Gorchest!**

Llongyfarchiadau mawr i Ted Elias Jones o flwyddyn 5 a'i frawd bach, Wil Elias Jones o flwyddyn 4 am gael eu dewis i sgwad Rhanbarth Criced dan 10 oed Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mi fydd y ddau yn mynychu sesiynau hyfforddi yn lleol dros y gaeaf, a byddant yn ymuno â gweddill chwaraewyr y sgwad o'r canolfannau eraill ar draws y rhanbarth yn ystod tymor y gwanwyn-pob lwc i'r ddau.

# Ysgol **Craig yr Wylfa**

Roedd dychwelyd i'r ysgol ar ôl y gwyliau haf yn gyfnod cyffrous. Ond er gwaethaf llacio'r cyfyngiadau'n gyffredinol o fewn y gymdeithas, newid pethau'n raddol yn ystod mis Medi oedd y cyngor i ysgolion.

Erbyn diwedd y mis, roedd teimlad mwy normal o gwmpas y lle er ein bod yn dal i ddefnyddio llawer o ddiheintydd wrth olchi dwylo ac mae'r oedolion yn gwisgo gorchudd wyneb wrth gerdded o gwmpas yr ysgol. Mae'r plant bellach yn cael cinio efo'i gilydd ac yn bwysicach na dim yn gallu chwarae gyda'i gilydd ar yr iard.

**Ysgol y Gymuned**

Roedd hi'n hyfryd gallu teimlo ein bod yn rhan o'r gymuned unwaith eto. Rydym wedi bod yn dysgu am yr ardal leol yn ystod y mis ac wedi manteisio ar y tywydd braf i gerdded at y traeth ac o gwmpas y pentref.

**Taith Feicio Tour of Britain**

Un o ddigwyddiadau cyntaf y tymor oedd mynd fel ysgol gyfan i weld taith feicio y Tour of Britain yn gwibio drwy'r pentref. Roedd hi'n dipyn o achlysur ynghanol yr holl geir oedd yn gyrru'n gyflym heibio a'r heddlu di-ri a'u seirenau'n canu'n swnllyd wrth iddynt sgrialu ar hyd y ffordd. Roedd hi'n hyfryd i gael cwrdd gyda Tom Davies, cyn-ddisgybl yn Ysgol Craig yr Wylfa a chyn seiclwr proffesiynol, a chlywed ei atgofion am Borth ei blentyndod. Diolch arbennig iddo am y rhodd o'r cap i un o'n disgyblion!

**Casglu Ffrwythau**

Roedd plant y Cyfnod Sylfaen wedi cael amser gwych yn mynd am dro o gwmpas y llwybrau cerdded yn casglu mwyar duon ac afalau. Nôl yn yr ysgol, buodd y plant yn brysur iawn yn torri, cymysgu a pharatoi'r bwyd cyn cael cyfle i fwyta'r losin arbennig! Dyma waith oedd wedi cydio yn nychymyg y plant ac roedd yn gyfle gwych i feithrin annibyniaeth a dysgu sgiliau bywyd.

**Am dro i'r pentref**

Gyda'r llacio ar y cyfyngiadau yn ystod y mis, trefnwyd taith arall i'r plant lleiaf i gerdded o gwmpas y Borth i ddod i adnabod adeiladau a nodweddion pwysig y pentref. Roedd hyn hefyd yn deimlad braf i gael teimlo'n rhan o'r gymuned unwaith eto, ac roedd y plant wrth eu boddau'n crwydro i weld y gwahanol bethau. Ond yr uchafbwynt wrth gwrs oedd galw yn y parc ar y ffordd yn ôl.

**Chwedl Taliesin**

Mae plant hynaf yr ysgol wedi bod yn dysgu am hanes Taliesin yn ystod y tymor hwn ac wedi synnu bod y chwedl wedi ei lleoli yn yr ardal. Fel rhan o'r gwaith trefnwyd taith arbennig i'r traeth ac wrth iddynt grwydro ymysg y creigiau gwelwyd rhywbeth rhyfedd iawn, sef basged ac ynddi neges ryfedd iawn. Cafwyd sawl trafodaeth ddiddorol am hanes y fasged ac am ystyr y neges anghyffredin. Tybed a fydd ateb cyn hir? Diolch yn fawr am gymorth Mrs Llwyd a Mrs Jones wrth drefnu'r daith.

**Ysgol Iach**

Wythnos Seiclo i'r Ysgol - Mae'n amlwg fod y plant wrth eu boddau'n cael dod â'u beiciau a'u sgwteri i'r ysgol. Mae'n ffordd wych o godi ymwybyddiaeth am gadw'n heini ac yn gyfle i bwysleisio pwysigrwydd teithio diogel i'r ysgol. Rydym wedi ail ddechrau cynnal sesiynau yn yr ysgol bob dydd Mercher ac mae'r Llysgenhadon Efydd wedi bod yn brysur yn paratoi cwrs diogel i'r plant eraill.

**Clwb Coginio**

Mae'n braf iawn ein bod wedi gallu ail ddechrau ein clybiau ar ôl ysgol y ystod y tymor yma. Diolch yn fawr i'r staff am drefnu sesiynau clwb coginio – roedd y bwyd yn edrych yn flasus iawn!

**Ysgol Greadigol**

Roedd hi'n hyfryd gallu cydweithio gyda Art+Science ar ddiwedd mis Medi. Maent yn elusen leol sy'n cynnig profiadau















dysgu tu fewn a thu allan gan ganolbwyntio ar yr amgylchedd, y tirwedd lleol, cynefinoedd a newid hinsawdd.

Yn gyntaf, buom yn astudio coeden ar dir yr ysgol gan geisio meddwl am hanes y goeden a 'i pherthynas gyda coed eraill o gwmpas. Buom yn chwarae llawer o gêmau diddorol am gynnwys carbon coed a dysgu am ddylanwad pobl ar yr amgylchedd. Roedd disgrifio 'stori'r goeden' yn ddiddorol iawn.

Ar yr ail ddiwrnod, croesawyd yr artist Ann MacGarry o gwmni Maint Cymru i'r ysgol i redeg sesiynau celf yn seiliedig ar bwysigrwydd fforestydd trofannol ar yr hinsawdd a'r newid ym mioamrywiaeth yr ardaloedd hynny.

Rydym yn edrych ymlaen i groesawu'r criw yn ôl atom cyn hir i barhau gyda'r drafodaeth bwysig yma.

# Ysgol **Pen-llwyn**

**Seiclo**
Mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn gwneud gweithgareddau di-ri yn ymwneud â seiclo. Mae nhw wedi bod yn chwarae gêmau rhif, creu pictogramau ar sut mae plant yn teithio i'r Ysgol ac yn cymryd rhan mewn sesiynau beicio ar iard yr Ysgol. Mae plant Dosbarth 2 hefyd wedi bod wrthi yn seiclo ac yn dysgu sut i seiclo yn ddiogel.

**Gweithdy Techniquest**
Cafwyd gweithdy gan Techniquest ar Teams ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen yn dwyn y teitl "Popeth Amdanaf Fi". Cafodd y plant hwyl mawr yn dysgu am eu hunain!

**Benji y Bwni**
Mae ein cwningen wedi cael caets newydd yn ardal y Cyfnod Sylfaen. Mae Benji yn hapus iawn ac wedi setlo yn gyflym iawn yn ei gartref newydd. Diolch i rai o'r plant hynaf fuodd yn helpu adeiladu y cwtsh.

**Llysgenhadon Efydd**
Mae ein llysgenhadon efydd - sef Isabel a Manon - wedi bod yn brysur yn cynnal sesiynau hyfforddi yn ystod yr awr ginio. Bydd plant Ysgol Pen-llwyn yn gryf ac yn heini mewn fawr o dro!

**Llysgenhadon Digidol**
Cafodd ein llysgenhadon digidol, sef Iestyn a Dafydd, gwrs hyfforddiant gyda diolch i Eryl Jones a Kay Morris. Bydd y bechgyn yn ein tywys ni ymlaen mewn maes sydd yn newid o hyd. Diolch am eich gwaith fechgyn.










**Diwrnod Owain Glyndŵr**
Buodd plant Ysgol Pen-llwyn yn dathlu Diwrnod Owain Glyndŵr ar y 16eg o Fedi. Cafwyd cyfle i ddysgu am hanes y tywysog, gwneud gwaith yn y dosbarth yn seiliedig ar hanes Owain Glyndŵr a chwifio baneri a mynd mewn i ysbryd yr ŵyl.







# Ysgol **Penrhyn-coch**



**Tymor Newydd**
Braf cael croesawu disgyblion newydd atom – sef Esme, Nathan a Leo – croeso i chi! Byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

**Taith tractorau**
Bu bwrlwm mawr yn yr Ysgol ar Ddydd Gwener cyn y daith tractorau. Gyda'r Cyfnod Sylfaen yn cael cyfle i ddod a'u tractorau i'r Ysgol ac i fynd ar daith eu hun er mwyn hysbysu'r daith tractorau! Roedd y plant wrth eu bodd!

Ar Ddydd Sul 19eg o Fedi 2021 braf oedd cynnal Taith Tractorau Ysgol Penrhyn-coch yn yr awyr agored. Wedi bod yn gyfnod hir o beidio cynnal digwyddiadau cymunedol felly roedd yn hyfryd iawn i gynnal digwyddiad cymunedol yn ddiogel yn yr awyr agored.

Roedd y gefnogaeth o drigolion a rhieni'r Ysgol yn wych, nifer fawr wedi dod i gefnogi! Roedd lluniaeth ysgafn ar gael – roliau bacwn blasus a digon o ddiodydd poeth i ddechrau'r diwrnod! Rhaid diolch i Lynwen (Garej T Mawr) a'r Gymdeithas Rhieni am drefnu hyn!

Roedd cyffro mawr wrth i'r daith cychwyn – roedd tua 30 o dractorau yn rhan o'r daith. Roedd yn daith i'w chofio! Y tywydd yn braf ac yn dangos Penrhyn-coch a'i chyffiniau ar ei orau. Fe wnaeth pob un fwynhau'r daith yn fawr iawn.

Codwyd swm ardderchog o £1617! Swm arbennig iawn a mae'r Ysgol yn ddiolchgar tu hwnt am yr holl gefnogaeth!

**Arddangosfa chwythbrennau**
Roedd disgyblion CA2 wedi mwynhau gwrando ar arddangosfa chwythbrennau gan Athrawon Cerdd Ceredigion Ms. Harwood a Ms. Greeley yn yr awyr agored.



**Diwrnod Owain Glyndŵr**
Dathlwyd Diwrnod Owain Glyndŵr eleni drwy wylio perfformiad Mewn Cymeriad ar fideo a gorymdeithio ar fuarth yr ysgol a thrwy ran o'r pentref.

**Cynhadledd Siarter Iaith**
Cynhaliwyd Cynhadledd Siarter Iaith Ceredigion gan Cardi Iaith yn rithiol dros Teams i griw Cymry i'r Carn yr ysgol yng nghwmni y cyflwynydd radio Marc Griffiths o Cymrufm, StiwdioBox a Radio Cymru, y cyflwynydd teledu Owain Williams o Stwnsh S4C a Sara Pennant o'r FAW. Fe wnaeth y disgyblion fwynhau yn fawr iawn ac y maent yn awyddus i ddechrau cynllunio a gweithio'n galed i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgol a'r gymuned.

**Gwers a Chystadleuaeth Coginio**
Diolch yn fawr iawn i Mel o Sweet Treats am roi gwers coginio ar sut i wneud pasta tagliatelle i ddisgyblion bl. 5 a 6. Yna, yr oedd y plant yn cael eu beirniadu ar eu sgiliau gwrando, techneg a chyflwyniad eu pryd o fwyd. Diolch hefyd i Miss Kirsty a Miss Hall am roi help llaw. Llongyfarchiadau mawr I Anest Cleary am ennill taleb Sweet Treats.

**Wythnos beicio**
Cynhaliwyd gweithgaredd cwrs antur i feiciau a cherddwyr gan griw Sustrans yr ysgol.





# Tasg y Tincer

Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r tywydd braf gawson ni ddiwedd mis Medi. Rwy'n siŵr eich bod wedi clywed pobl yn dweud ein bod wedi cael 'haf bach Mihangel'. Am ddywediad hyfryd, yndê? Diolch i'r criw fu'n lliwio'n brysur: Heledd Rees, Rhydyfelin; Elsi Wyn Lewis, Capel Bangor; Evan Griffiths, Bow Street; Tirion, Iestyn a Carian Evans, Y Borth; Jack Herron, Bow Street. Roedd lluniau'r mwyar duon yn arbennig! Dy enw di, Evan, ddaeth o het y Tincer yn gynta. Llongyfarchiadau mawr, a da iawn, bawb!



Evan

A ydych chi'n cael gwasanaeth diolchgarwch yn eich ysgol neu yn eich pentref y mis hwn? Dyma gyfle i ni ddweud diolch am bopeth sydd gan bob un ohonon ni – cartref, teulu, ffrindiau, ysgol, dillad, bwyd ... mae angen diolch am bob dim! Ond nid yw pob gwlad yn dathlu ei gŵyl ddiolchgarwch adeg yma o'r flwyddyn. Mae pobl Seland Newydd yn dathlu ym mis Chwefror, pobl yn India yn dathlu yn mis Ionawr ac mae pobl Nigeria yn cynnal eu gŵyl bysgod ym mis Chwefror. Shavout yw enw gŵyl ddiolchgarwch yr Iddewon, sy'n cael ei dathlu ym Mai neu Fehefin, pryd bydd yr Iddewon yn mwynhau bwyta, canu, dawnsio ac addurno'u tai. Ac mae'r Americanwyr yn cynnal eu gŵyl thanksgiving ym mis Tachwedd.



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Y mis hwn, beth am liwio llun y bwmpen – jyst mewn pryd ar gyfer Calan Gaeaf! Fyddwch chi'n cerfio wyneb yn eich pwmpen, tybed? Beth am roi wyneb i'r bwmpen yn y llun? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Tachwedd 1af.

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

Rhif 442 | Hydref 2021